

Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Adroddiad blynyddol 2018-19

Cynulleidfa

Adrannau Llywodraeth Cymru; cyrff cyhoeddus yng Nghymru; cyrff y trydydd sector yng Nghymru; cwmnïau y sector preifat yng Nghymru; sefydliadau addysgol yng Nghymru; sefydliadau sy'n gweithio i hybu'r defnydd o'r Gymraeg; sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc, a chymunedau; a phartïon eraill â diddordeb.

Trosolwg

Er mwyn cyflawni gofynion Deddf Llywodraeth Cymru 2006, lansiwyd *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* ym mis Gorffennaf 2017, wedi i'r strategaeth flaenorol dynnu i'w therfyn.

Mae'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i gyhoeddi adroddiad blynyddol i fonitro cynnydd yn erbyn Strategaeth y Gymraeg.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Is-adran y Gymraeg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru

 [@Cymraeg](https://twitter.com/Cymraeg)

 [Facebook/Cymraeg](https://www.facebook.com/Cymraeg)

Copiau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn

www.llyw.cymru/y-gymraeg

Dogfennau cysylltiedig

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (2017); *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Rhaglen waith 2017-21* (2017); *Adroddiad technegol: Amcanestyniad a thaflywybr nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd, 2011-2050* (2017); *Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017-21* (2017)

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	2
Cyd-destun – <i>Cymraeg 2050</i>	4
Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg	6
Thema 2: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg	26
Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun	36

Rhagair y Gweinidog

Yn y papur yma rwyf yn cyflwyno'r ail adroddiad blynyddol ar ein gweithredu mewn perthynas â strategaeth [Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr](#). Mae'n teimlo fel petai cryn amser wedi mynd heibio ers i ni lansio'r strategaeth hon. Mae'r nod o gyrraedd ein targed o filiwn o siaradwyr wedi dal y dychymyg ac wedi dod yn rhan o'r drafodaeth am ieithoedd lleiafrifol, nid yn unig yng Nghymru ond y tu hwnt i'n ffiniau. Ond mae'n bwysig cofio, serch hynny, yn yr un ffordd ag yn yr adroddiad cyntaf, mai dim ond dwy flynedd sydd wedi bod ers ei chyhoeddi, a'n bod ni yn y dyddiau cynnar o hyd.

Mae'n bwysig nodi ein bod ni yn disgrifio yn y papur yma yr hyn a wnaethon ni yn y flwyddyn ariannol rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019. Rydym yn dal i ganolbwyntio ar osod y sylfeini mewn nifer o feysydd penodol er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr, cynyddu defnydd, a rhoi'r seilwaith yn ei le i hwyluso hynny. Mae'n bwysig i gydnabod y ffaith nad yw ymdrechion i gynyddu nifer siaradwyr unrhyw iaith lleiafrifol yn llwyddo dros nos. Y bwriad yw i'r gwaith hwn arwain at gynnydd yn ystod cyfnod nesaf y strategaeth o 2021 ymlaen.

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r camau a gymerwyd yn erbyn ein prif dargedau, o'r blynyddoedd cynnar, drwy ddarpariaeth addysg statudol, i addysg ôl-orfodol a Chymraeg i oedolion, yn ogystal â chynlluniau a phrosiectau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws pob grŵp oedran. Yn hyn o beth, rydym wedi agor 19 o Gylchoedd Meithrin newydd ers cyhoeddi'r strategaeth yn 2017, er mwyn ehangu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. Mae camau i gynyddu nifer y lleoedd addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau wrth i'r cyllid cyfalaf a ddarparwyd drwy Raglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer y 21^{ain} Ganrif ddechrau dwyn ffrwyth, ac mae arwyddion cynnar ein bod ar y trywydd iawn i gyrraedd carreg filltir 2021 o gael 24% o ddysgwyr mewn addysg Gymraeg. Ym mis Hydref 2018 fe wnes i hefyd gyhoeddi ein *Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg*, sy'n gosod gweledigaeth i'r Gymraeg fod ar gael yn hawdd ym myd technoleg – rhywbeth sy'n hollbwysig o safbwynt defnydd o'r iaith mewn bywyd bob dydd – ac i genedlaethau'r dyfodol.

Wrth gwrs mae rhai meysydd sydd angen rhagor o waith i'w datblygu. Rydym yn ymwybodol, er enghraifft, fod angen mynd i'r afael â materion o ran dilyniant plant rhwng y sectorau addysg cynradd ac uwchradd, ac o ran recriwtio athrawon, yn arbennig athrawon uwchradd (rhywbeth sydd â'i wraidd, efallai, yn nifer y myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg ar lefel Safon Uwch ac yn y Brifysgol, a phwysig yw cofio nad yw'r pethau hyn yn unigryw i'r Gymraeg).

Wrth ddarllen y ddogfen hon, rhaid cadw mewn cof mai ciplun (neu 'snapshot') ydyw o gyfnod mewn amser, a bod pethau o reidrwydd wedi newid a symud yn eu blaenau ers y cyfnod a ddisgrifir yn yr adroddiad. Ymysg y rhain mae datblygiadau arwyddocaol fel *Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019*, a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 5 Rhagfyr 2019, ac a ddaeth i rym ar 1 Ionawr eleni. Hefyd, strategaeth fewnol Llywodraeth Cymru i gynnig gweledigaeth hirdymor iddi fod yn sefydliad dwyieithog erbyn 2050. Ac wrth gwrs, Prosiect 2050, sef uned amlddisgyblaethol newydd a fydd yn gweithio gyda phartneriaid ledled Cymru a thu hwnt i gynllunio ein llwybr tuag at filiwn o siaradwyr; dyblu'r defnydd o'r Gymraeg drwy greu mentrau newydd, a gwerthuso'r mentrau presennol; a chefnogi

meysydd polisi ar draws Llywodraeth Cymru i gyfrannu at y gwaith o gynnal ein cymunedau Cymraeg a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, yn unol â *Cymraeg 2050*.

Rydw i hefyd wedi cyhoeddi bod Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i gytuno rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. Mae'r Memorandwm yn egluro'r berthynas rhwng y ddau sefydliad, a'u cyfrifoldebau wrth weithio tuag at *Cymraeg 2050*.

Fel y Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol, dwi'n edrych o hyd ar y cyfleoedd cyffrous i gydweithio rhwng y Gymraeg a'r portffolio rhyngwladol. Fe fyddwch chi wedi clywed am ein gwaith i ddathlu Blwyddyn Ryngwladol Ieithoedd Brodorol UNESCO y llynedd, ac am y gynhadledd wych a gafodd ei chynnal fis Tachwedd diwethaf yn Aberystwyth o dan y faner "Gŵyl ein llais yn y byd". Bydd y gwaith hwnnw'n parhau drwy ein haelodaeth o fforymau fel y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig a'r Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol.

Byddwn yn adrodd yn fanylach ar y pethau hyn, yn ogystal â chymau eraill a gymerwyd ers i'r cyfnod yr ymdrinnir ag ef yn yr adroddiad hwn ddod i ben, yn yr adroddiad blynyddol nesaf ar gyfer 2019-20.

Rydw i'n ffyddiog ein bod ni ar y trywydd iawn. Mae ffigurau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn galonogol (gweler Siart 2 isod). Ac er bod y ffigurau hyn yn dueddol o fod yn uwch o lawer na ffigurau'r Cyfrifiad (y Cyfrifiad a ddefnyddir gennym i fesur ein llwyddiant gyda *Cymraeg 2050*), maent yn ddefnyddiol er mwyn gweld patrymau neu dueddiadau. Drwy barhau i gyd-dynnu a throedio'r llwybr hwn gyda'n gilydd, fe gyrhaeddwn ni filiwn o siaradwyr.


Eluned Morgan AC
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

Cyd-destun – Cymraeg 2050

Ar ôl pob blwyddyn ariannol, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru (o dan Adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) gyhoeddi adroddiad ar sut y cafodd y cynigion a amlinellwyd yn strategaeth Llywodraeth Gymru ar gyfer y Gymraeg eu rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol honno, a pha mor effeithiol y bu'r gweithredu hwnnw o ran hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r adroddiad sy'n dilyn, felly, yn darparu manylion ar ein cynnydd yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19.

Siart 1: Amcanestyniad a thafllwybr nifer y siaradwyr Cymraeg



Mae'r llinell isaf yn cynnig amcanestyniad o nifer y siaradwyr Cymraeg, yn seiliedig ar amcanestyniadau o'r boblogaeth a data Cyfrifiad 2011. Mae'r amcanestyniad wedi'i seilio ar senario lle byddai'r cyd-destun polisi ar gyfer y Gymraeg a'r Gymraeg mewn addysg wedi aros yn gyson â'r sefyllfa flaenorol, cyn lansio *Cymraeg 2050*.

Mae llinell uchaf y graff yn dangos un tafllwybr posibl ar gyfer y cynnydd at filiwn, yn seiliedig ar amcanion polisi *Cymraeg 2050*. Fel y gwelir yn y graff, cynnydd bach a ragwelir yn ystod blynyddoedd cyntaf y strategaeth, gyda chynnydd mwy yn dechrau dod i'r amlwg tuag at ddiwedd y degawd cyntaf ar ôl lansio'r strategaeth.

Gan ddefnyddio'r tafllwybr hwn a'r rhagdybiaethau sy'n sail iddo, gosodwyd cerrig milltir ar gyfer y daith at y miliwn o siaradwyr. O ran y cam cyntaf, y cerrig milltir i nodi ein bod ar y llwybr iawn fydd:

- cynnydd bychan yn y teuluoedd sy'n trosglwyddo'r Gymraeg erbyn Cyfrifiad 2021, gan barhau â'r patrwm a welwyd rhwng 2001 a 2011

- cynnydd yng nghanran y dysgwyr a fydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, o 22 y cant (sy'n seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith oed yn 2015/16) i 24 y cant (tua 8,400) erbyn 2021, er mwyn bod ar y trywydd iawn i gyrraedd 30 y cant (tua 10,500 ym mhob grŵp oedran) erbyn 2031 ac yna 40 y cant (tua 14,000 ym mhob grŵp oedran) erbyn 2050.

Yn ystod blynyddoedd cyntaf gweithredu'r strategaeth mae llawer o'n pwyslais, felly, ar hyrwyddo'r ddau faes gwaith hwn rhwng nawr a 2021 er mwyn cryfhau'r seiliau ar gyfer y dyfodol.

Er mwyn hwyluso cynnydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, rydym wedi gosod y nod o:

- ceisio cefnogi'r gwaith o ehangu sector Cymraeg y blynyddoedd cynnar drwy greu 40 grŵp meithrin newydd erbyn 2021
- cefnogi cynnydd yn nifer yr athrawon yng Nghymru sy'n gallu addysgu Cymraeg neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2021 fel a ganlyn:
 - 3,100 o athrawon cynradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (o linell sylfaen o 2,900 yn 2015/16)
 - 600 o athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu Cymraeg (o linell sylfaen o 500 yn 2015/16)
 - 2,200 o athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (o linell sylfaen o 1,800 yn 2015/16).

Byddwn hefyd yn cadw llygad agos ar y dangosyddion defnydd iaith sy'n gysylltiedig â'r targed o gynyddu cyfraddau'r bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg bob dydd o 10 y cant o'r boblogaeth i 20 y cant yn 2050. Cynyddu'r targed o 10 y cant i 11 y cant erbyn 2021 fydd ein carreg filltir gyntaf.


Mae'r adroddiad isod yn amlinellu ein gweithgareddau yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19 i roi'r strategaeth ar waith, ac yn nodi ein cynnydd lle bo ffigurau priodol yn bodoli.

THEMA 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

Y sefyllfa gyfredol – faint o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg?

Y Cyfrifiad yw'r ffynhonnell a ddefnyddir i fonitro'r cynnydd tuag at ein targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Ond gan mai dim ond bob 10 mlynedd y cynhelir y Cyfrifiad, defnyddir canlyniadau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth¹, sy'n darparu canlyniadau bob chwarter, er mwyn cael cipolwg mwy rheolaidd o'r tueddiadau o safbwynt nifer y siaradwyr Cymraeg. Yn draddodiadol, fodd bynnag, mae amcangyfrifon o'r arolwg hwn wedi bod yn llawer uwch na rhai'r Cyfrifiad – gweler Siart 2 isod:

Siart 2: Nifer y bobl 3 oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl yr Arolwg Blynyddol a Chyfrifiad y Boblogaeth



Er bod ffigurau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dueddol o fod yn uwch o lawer na ffigurau'r Cyfrifiad, maent yn ddefnyddiol er mwyn gweld patrymau neu tueddiadau yn nifer y siaradwyr.

Yn ôl Arolwg Blynyddol y Boblogaeth, felly, roedd 896,900 o bobl 3 oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019. Er bod ffigurau'r Arolwg Blynyddol yn amrywio ychydig o flwyddyn i flwyddyn, y tueddiad sy'n dod i'r amlwg yw bod y niferoedd i'w gweld yn cynyddu yn raddol ers 2008.

Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu

Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd 14,907 o blant tair i bedair oed yn byw mewn aelwydydd un teulu lle gallai un oedolyn siarad Cymraeg. O'r plant hyn, adroddwyd bod 58 y cant yn gallu siarad yr iaith. Yn ôl y cyfrifiad roedd 82 y cant o blant tair i bedair oed mewn aelwydydd dau riant lle roedd o leiaf dau oedolyn yn siarad Cymraeg hefyd yn medru'r Gymraeg. Mae'r gyfran hon yn gostwng i 53 y cant mewn teuluoedd unig riant lle roedd o leiaf un oedolyn ar yr aelwyd yn gallu siarad Cymraeg a 45 y cant mewn teuluoedd dau riant ar aelwydydd lle gallai un oedolyn siarad Cymraeg.

¹ Ceir rhagor o wybodaeth am yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth o safbwynt y Gymraeg ar <https://llyw.cymru/data-am-y-gymraeg-or-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth>

Yn sgil cyhoeddi astudiaeth ymchwil *Trosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd* (mae'r astudiaeth ar gael yn <https://llyw.cymru/trosglwyddor-gymraeg-ai-defnydd-mewn-teuluoedd>), cynhaliwyd cyfres o weithdai â rhanddeiliaid perthnasol yn ystod y flwyddyn.

Yn seiliedig ar yr astudiaeth ymchwil honno, rydym wrthi'n datblygu polisi cenedlaethol yn amlinellu sut rydym yn bwriadu sicrhau bod rhieni / gofalwyr yn cael y cymorth gorau posibl i gyflwyno'r Gymraeg i'w plant. Y bwriad yw cyhoeddi ymgynghoriad ar bolisi drafft yn ystod hanner cyntaf 2020.

Cynhaliwyd gwerthusiad proses o'r rhaglen Cymraeg i Blant yn ystod y flwyddyn, a chyhoeddwyd yr adroddiad terfynol gan Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth ym mis Chwefror 2019. Roedd canfyddiadau'r gwerthusiad yn cwmpasu nifer o feysydd gan gynnwys nod ac amcanion y rhaglen, strwythurau a phrosesau, a gweithio mewn partneriaeth. Mae argymhellion y gwerthusiad wedi eu rhoi ar waith wrth i'r rhaglen gael ei datblygu ymhellach o fis Ebrill 2019 ymlaen.

Mae rhaglen Cymraeg i Blant yn parhau i gydweithio gyda'r GIG ar lefel genedlaethol a lleol er mwyn sicrhau bod bydwagedd, ymwelwyr iechyd a phartneriaid eraill yn rhannu negeseuon gyda rhieni a darpar-rieni am drosglwyddo iaith. Mae'r negeseuon hyn hefyd yn cael eu rhannu gyda theulu pob plentyn a enir yng Nghymru drwy gasgliad o ddeunyddiau sy'n cynnwys Cofnod Personol y Plentyn.

Y blynyddoedd cynnar

Y nod yn y maes hwn yw ehangu'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys cefnogi'r gwaith o greu 40 grŵp meithrin newydd erbyn 2021, a hynny er mwyn cyrraedd 150 yn fwy o grwpiau meithrin erbyn 2026-27.

O ganlyniad i fuddsoddiad o £1 miliwn ychwanegol yng ngwaith Mudiad Meithrin yn 2018-19, bu modd ehangu'r gefnogaeth i'w aelodau er mwyn cryfhau darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg ledled Cymru. Galluogodd y buddsoddiad ychwanegol hwn hefyd i'r Mudiad Meithrin roi rhaglen benodol ar waith i sefydlu Cylchoedd Meithrin newydd mewn ardaloedd â diffyg darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Sefydlwyd 12 Cylch Meithrin yn ystod 2018-19 o ganlyniad i'r gwaith hwn.


Gan adeiladu ar y gefnogaeth y mae Cwlwm, consortiwm o bum sefydliad ym meysydd gofal plant a chwarae, yn ei gynnig i'w aelodau er mwyn ehangu gwasanaethau a sicrhau eu bod yn hunangynhaliol, darparwyd cefnogaeth ychwanegol yn ystod 2018-19 i ddatblygu capasiti cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar draws y sector gofal plant.

Er mwyn hwyluso'r dilyniant rhwng grwpiau meithrin Cymraeg ac addysg statudol cyfrwng Cymraeg, drwy Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) parhawyd i gydweithio gydag awdurdodau a darparwyr lleol i wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar. I'r perwyl hwn, fel rhan o'u prosesau data, casglwyd gwybodaeth gynhwysfawr gan Mudiad Meithrin am nifer y plant sy'n mynychu Cylchoedd Meithrin a'u taith ymlaen i addysg statudol. Rhannwyd yr

wybodaeth hon gydag awdurdodau lleol er mwyn bwydo i mewn i'w prosesau cynllunio.

Mae Siart 3 (isod) yn dangos bod nifer y plant sy'n mynychu Cylchoedd Meithrin, a chanran y rheini sydd wedyn yn trosglwyddo i addysg Gymraeg, wedi cynyddu dros y tair blynedd diwethaf.

Siart 3: Nifer y plant sydd wedi mynychu Cylchoedd Meithrin a'r canran sy'n trosglwyddo i ysgol gynradd Gymraeg.




Yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19, estynnwyd y Cynnig Gofal Plant (cynllun sy'n golygu y gall rhieni sy'n gweithio, ac sydd â phlant 3 i 4 oed, gael help y llywodraeth gyda chostau gofal plant) i 12 awdurdod lleol ychwanegol. Roedd hyn yn golygu bod y Cynnig ar waith mewn cyfanswm o 19 awdurdod lleol erbyn mis Mawrth 2019.

Roedd cyfanswm o 11,131 o blant yn elwa ar y Cynnig ym mis Mawrth 2019, gyda 30% o'r rheini'n cael mynediad ato mewn lleoliadau cyfrwng-Cymraeg neu ddwyieithog. Cafodd gwybodaeth am ddefnydd teuluoedd o wasanaethau cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog fel rhan o'r Cynnig ei fonitro'n agos, ac anogwyd Awdurdodau Lleol i wella ymwybyddiaeth rhieni o'r dewisiadau ieithyddol sydd ar gael iddynt wrth ddewis gofal plant.

Addysg statudol

Mae Y Gymraeg mewn Addysg: Cynllun gweithredu 2017-21 yn parhau i gael ei weithredu, ac mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn sydd wedi digwydd yn erbyn y targedau a bennwyd.

Siart 4: Canran dysgwyr Blwyddyn 11 sydd wedi cael eu cofrestru ar gyfer TGAU yn y Gymraeg (iaith gyntaf ac ail iaith)



Mae Siart 4 uchod yn dangos bod cynnydd wedi bod yng nghanran y plant sy'n sefyll TGAU Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith (cwrw llawn) ers 2008/09. Bu gostyngiad yn y ganran a oedd yn sefyll y cwrw byr ail iaith rhwng 2012/13 a 2017/18 ac yna diddymwyd y cwrw byr ym mis Medi 2018. (Roedd y 2% a gafodd TGAU Cymraeg ail iaith cwrw byr yn 2018/19 wedi sefyll yr arholiad ar ddiwedd blwyddyn 10 y flwyddyn cynt). Ers i'r cwrw byr gael ei ddiddymu, mae cynnydd sylweddol wedi bod i'r canran sy'n cofrestru i sefyll TGAU Cymraeg ail iaith (cwrw llawn). Ar y cyfan roedd 84% o blant wedi'u cofrestru i sefyll TGAU Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith yn 2018/19. Mae hyn wedi cynyddu dros y degawd diwethaf o 70% yn 2008/09.

Y Gymraeg yn y cwricwlwm newydd

Mae'r Gymraeg yn rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd Llythrennedd a Chyfathrebu yn y cwricwlwm newydd. Ni fydd rhaglenni astudio ar wahân ar gyfer Cymraeg a Chymraeg ail iaith bellach.

Mae cynnydd ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad yn seiliedig ar gysyniad o gontinwmm dysgu. O ran y Gymraeg, mae hyn yn golygu bod pob disgybl yn datblygu o fod yn ddi-iaith, neu gyda dim ond ychydig iaith, ac yn gwneud cynnydd tuag at hyfedredd / rhuglder.

Cydnabyddir y bydd cynnydd a dyfnder yn wahanol mewn amrywiol gyd-destunau ieithyddol. Oherwydd hyn, bydd rhai o'r 'disgrifiadau dysgu' wedi'u gwahaniaethu er mwyn hwyluso dysgu ac addysgu mewn gwahanol gyd-destunau ieithyddol, ond wedi'i seilio ar gysyniad continwmm lle bydd disgyblion yn gweithio tuag at hyfedredd yn yr iaith dan sylw.

Datblygwyd drafft o'r cwricwlwm gan ymarferwyr, a'i gyhoeddi fis Ebrill 2019 er mwyn i ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill gynnig adborth. Mae'r cwricwlwm wedi ei ddiwygio yn sgil hynny, a bydd yn cael ei gyhoeddi'n derfynol maes o law. Mae Cymwysterau Cymru yn ymgynghori ar yr egwyddorion lefel uchel ar gyfer cymwysterau a fydd yn

deillio o'r cwricwlwm newydd, gydag ymgynghoriadau mwy penodol i ddilyn, a byddwn yn adrodd ymhellach ar hyn yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Sefydlwyd y Bwrdd Cynghori ar Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) rhwng mis Mai 2018 a mis Mawrth 2019.

Blaenoriaeth y Bwrdd hwn oedd cynghori'r Llywodraeth ar newidiadau i gryfhau'r fframwaith cynllunio er mwyn ehangu darpariaeth addysg Gymraeg drwy Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA). Cyflwynwyd adroddiad gydag argymhellion i'r Gweinidog Addysg (*Gwella'r Broses Cynllunio Addysg Gymraeg – Argymhellion y Bwrdd Cynghori Strategol y Gymraeg mewn Addysg*), ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Mai 2019.

Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad terfynol y Bwrdd Cynghori, aethpwyd ati i fireinio *Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 a'r Canllawiau drafft* newydd fyddai'n cefnogi cynllunio darpariaeth addysg Gymraeg trwy'r CSGA. Arweiniodd hyn at gynnal ymgynghoriad ar gynigion newydd y rheoliadau drafft rhwng 30 Mai 2019 a 13 Medi 2019. Cynhaliwyd 4 sesiwn ymgysylltu cyhoeddus a fynychwyd gan dros 100 o unigolion, a daeth 72 o ymatebion i'r ymgynghoriad i law gan groestoriad o unigolion, awdurdodau lleol, sefydliadau addysgol a chyhoeddus, ysgolion, a mudiadau Cymraeg.

Cyhoeddwyd adroddiad yn crynhoi ymatebion yr ymgynghoriad ar 7 Tachwedd 2019². Yn sgil y gwaith hwn, gosodwyd *Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019* o flaen y Cynulliad ar 5 Rhagfyr 2019, a daeth y Rheoliadau i rym ar 1 Ionawr 2020.

Mewn ymateb i argymhellion Adolygiad Brys y CSGA a'r Bwrdd Cynghori, mae'r rheoliadau CSGA newydd yn gofyn am gynllunio mwy pwrpasol gan awdurdodau lleol yn ystod y blynyddoedd cynnar. Er enghraifft, mae'r cynigion newydd yn gofyn i awdurdodau lleol osod allan eu cynlluniau i sicrhau darpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg addas i blant o 3 oed ymlaen ac hefyd i fesur eu llwyddiant yn unol â data dysgwyr 5 oed / Blwyddyn 1. Mae'r newid pwyslais ar gynllunio cynnar yn cefnogi amcan *Cymraeg 2050* i yrru twf yn nifer y plant sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y trefniadau newydd hefyd yn cynnwys cyflwyno cynlluniau strategol tymor hwy (10 mlynedd) yn ogystal â chynlluniau sy'n cael eu paratoi ar sail targedau clir, uchelgeisiol a gyflwynir iddynt gan Lywodraeth Cymru. Mae'r targedau wedi'u cyfrifo fel eu bod yn cyfateb i gerrig milltir addysg *Cymraeg 2050*.

Newid arall a gyflwynir yn y rheoliadau yw'r pwyslais ar gryfhau partneriaethau. Mae hyn yn cydnabod na ellir gweithredu cynlluniau CSGA heb gefnogaeth neu arbenigedd lleol a rhanbarthol. Caiff canllawiau ar gydweithio a gweithredu eu

² Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad i'w weld ar <https://llyw.cymru/rheoliadau-cynlluniau-strategol-cymraeg-mewn-addysg-cymru-2019-ar-canllawiau-drafft>

cyflwyno drwy Fforymau Cynllunio Addysg Gymraeg yr awdurdodau lleol er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau ac arbenigedd lleol.

Cyllid cyfalaf

Er mwyn creu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg, yn ystod 2017-18 cyhoeddodd y Llywodraeth bod £30 miliwn ar gael ar gyfer prosiectau cyfalaf i gefnogi a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysg. Roedd hyn ar ben y dyraniad a gyhoeddwyd ar gyfer Band B o'r Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer y 21^{ain} Ganrif. Cafodd y cyllid ei ddyrannu ar gyfradd o 100% er mwyn rhoi hwb i ddatblygiadau na fyddent wedi bod yn bosibl fel arall.

Bydd y prosiectau cyfalaf sydd wedi derbyn cymeradwyaeth mewn egwyddor yn gwneud cyfraniad sylweddol i addysg Gymraeg ledled y wlad, ac yn hybu'r Gymraeg yn lleol. Er enghraifft, o ganlyniad i'r cyllid bydd ysgolion cynradd newydd yn agor yn y lleoliadau canlynol:

Awdurdod lleol	Lleoedd newydd
Torfaen	210
Sir Fynwy	210
Casnewydd	420
Sir Benfro	99
Merthyr Tudful	210
Blaenau Gwent	210

Ymhellach, bydd darpariaeth yn ehangu mewn ysgolion presennol, er enghraifft:

Awdurdod lleol	Lleoedd ychwanegol
Wrecsam	105 – cynradd
Fflint	51 – cynradd
Caerdydd	105 – cynradd
Caerffili	212 – cynradd
Merthyr Tudful	67 – cynradd
Sir Fynwy	30 – cynradd

Mae rhai o'r prosiectau hyn eisoes wedi dechrau, ond bydd y mwyafrif yn dechrau dros y 12-18 mis nesaf.

Catégorieiddio ysgolion

Mae'r gwaith a wnaed gan y Bwrdd Cynghori hefyd wedi amlygu'r angen i adolygu'r diffiniadau presennol a chategorïau o ysgolion yng Nghymru yn ôl eu natur ieithyddol a darpariaeth iaith, fel bod ysgolion mewn gwell sefyllfa i ymateb i'r cwricwlwm newydd.

O ganlyniad i hyn, comisiynodd y Gweinidog Addysg adolygiad o gategorïau a'r diffiniadau o ysgolion yng Nghymru, gyda'r nod o'u symleiddio a datblygu categorïau newydd y gellir eu defnyddio i helpu'r ysgol i lywio a chynllunio a'r gyfer y cwricwlwm.

Yn sgil y gwaith hwn, derbyniwyd adroddiad terfynol yn dilyn yr adolygiad ym mis Rhagfyr 2019. Y bwriad yw ymgynghori'n ffurfiol ar gynigion i gyflwyno categorïau drafft newydd ym mis Chwefror 2020.

Cyfran y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg

Rhodddwyd sylw i'r angen i gynyddu cyfran yr addysgu a'r dysgu cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion hefyd yn ystod trafodaethau Bwrdd Cynghori Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Argymhellwyd y dylai Llywodraeth Cymru weithio tuag at gael darlun mwy eglur o'r anghenion o safbwynt athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan osod targedau penodol ac uchelgeisiol i ddarparwyr hyfforddiant cychwynol athrawon o ran recriwtio athrawon sy'n medru'r Gymraeg.

Nodwyd hefyd yr angen i gynllunio'n fwy pwrpasol gyda sefydliadau addysg uwch, consortia addysg lleol ac awdurdodau lleol. Mae'r cydweithio gyda'r adrannau perthnasol yn Llywodraeth Cymru yn mynd rhagddo, a chatau ar waith i ddenu athrawon newydd, gwella sgiliau athrawon a'u cefnogi, ac i gynllunio'r gweithlu'n bwrpasol er mwyn symud tuag at y targedau.


Ac o ran hwyrdyfoidiaid, mae'r gwaith o ddarparu cyfleoedd trochi hwyr yn parhau i gael ei nodi o fewn y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Mae ymgyrchoedd marchnata yn un ffordd o gynyddu'r galw am addysg Gymraeg, ac yn ystod y cyfnod dan sylw mae rhaglen Cymraeg i Blant wedi parhau i godi ymwybyddiaeth o addysg Gymraeg a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil dwyieithrwydd. Yn ystod 2018-19, mae Cymraeg i Blant wedi bod yn rhan o nifer o weithgareddau marchnata ehangach. Mae hyn yn cynnwys Dydd Miwsig Cymru, lle anogwyd swyddogion i gynnal sesiynau gan ddefnyddio rhestrau chwarae Dydd Miwsig Cymru ar gyfer plant ifanc, gyda'r nod o gyflwyno cerddoriaeth Gymraeg i rieni ei defnyddio gyda'u plant. Roedd hefyd yn cynnwys cystadlaethau yn ymwneud â cherddoriaeth, i ddenu mwy o bobl i hoffi a dilyn y tudalennau Facebook a Twitter Cymraeg i Blant.

Crëwyd nifer o astudiaethau achos o rieni o wahanol ardaloedd a chefnidiroedd, a'u rhannu ar wefan 'Cymraeg' ac ar Facebook a Twitter. Nod y rhain oedd dangos y manteision o fynychu'r sesiynau a defnyddio'r Gymraeg, ac annog mwy o rieni i fynychu a defnyddio'r Gymraeg gyda'u plant fel cam cyntaf ar y daith tuag at addysg Gymraeg. Yr astudiaethau achos hyn oedd rhai o'r tudalennau mwyaf poblogaidd ar wefan 'Cymraeg'.

Rydym hefyd wedi parhau i ddsbarthu ffolderi mamolaeth a chardiau sgan i unedau mamolaeth ar draws Cymru er mwyn cyflwyno rhieni i Cymraeg i Blant cyn i'w plentyn gael ei eni, a pharhau i hyrwyddo'r llyfryn addysg Gymraeg ar gyfer rhieni. At hynny, mae Cymraeg i Blant yn rhan o strategaeth farchnata ehangach sy'n cael ei chreu ar gyfer y Gymraeg mewn addysg.


Siart 5: Canran y dysgwyr Blwyddyn 2 (7 oed) sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn ôl blwyddyn academaidd



Mae Siart 5 uchod yn dangos bod 22.8% o ddysgwyr saith oed mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn y flwyddyn academaidd 2018/19.

Fel y nodir uchod, y targed yw cynyddu canran y plant saith oed mewn addysg cyfrwng Cymraeg o 22% i 24% erbyn 2021. Y cohort dosbarth derbyn presennol (ym mlwyddyn academaidd 2018/19) fydd y disgyblion saith mlwydd oed yn 2021. Nid oes gennym ddata ar nifer y dysgwyr yn y cohort dosbarth derbyn presennol sy'n astudio Cymraeg fel iaith gyntaf, ond mae'r data ar gyfer dosbarthiadau blwyddyn 1 a 2 ar hyn o bryd yn awgrymu y bydd y ganran o gwmpas 23% erbyn cyhoeddi ffigurau 2020. Mae arwyddion cynnar yn awgrymu ein bod ar y trywydd iawn i gyrraedd carreg filltir 2021 o gael 24% o ddysgwyr mewn Addysg Gymraeg.


Siart 6: Canran y dysgwyr ar ddiwedd cyfnodau allweddol 2 a 3 sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn ôl blwyddyn academaidd



Un o dargedau cynllun gweithredu *Y Gymraeg mewn Addysg* oedd cynyddu cyfran y dysgwyr Blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf) o 17.9% yn 2016/17 i 21% erbyn 2021. Mae Siart 6 yn dangos bod canran y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu ychydig ers 2013 ar gyfer y rhai sydd ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 a 3.

Mae Siart 6 hefyd yn dangos y tueddiad i ganran y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 (sef ar ddiwedd ysgol gynradd) fod tua 2 pwynt canran yn uwch nag ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 dair mlynedd yn ddiweddarach. Ceir manylion am yr hyn rydym yn ei wneud i wella dilyniant rhwng cyfnodau addysg ar dudalen 23 isod.

Siart 7: Canran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf dau neu bump cymhwyster Lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg



Mae Siart 7 yn dangos bod 81.6% o ddysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf hefyd wedi'u cofrestru ar gyfer o leiaf dau gymhwyster arall drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn wedi cynyddu ychydig ers 2014, ond wedi gostwng ychydig ers 2017.

Roedd 71.2% o'r dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf hefyd wedi'u cofrestru ar gyfer o leiaf pum cymhwyster arall drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd hyn wedi cynyddu cryn dipyn ers 2016, ac yn ymddangos i fod wedi rhagori ar y targed o 65% a osodwyd ar gyfer 2021.

Y rheswm mwyaf tebygol am y gostyngiad a welwyd yn y rhai a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf dau neu bump cymhwyster yn 2018 yw bod mwy o bynciau gorfodol wedi'u cynnwys yn y cwricwlwm (e.e. mathemateg ychwanegol), sy'n golygu fod llai o ddewis pynciau gan ddisgyblion. Dros Gymru gyfan, mae'r pynciau gorfodol yma yn fwy tebygol o gael eu addysgu drwy gyfrwng y Saesneg.

Addysg ôl-orfodol

Yn ôl canlyniadau'r Cyfrifiad, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn cwmpo'n sylweddol ar ôl 16 oed. Mae ystod o ffactorau cymdeithasol cymhleth yn dylanwadu ar bobl ifanc, gan gynnwys cyfleoedd hyfforddiant ac astudio ôl-16, gweithgareddau cymdeithasol (gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol), iaith y cartref a chyfleoedd am gyflogaeth.

O gofio'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n dweud eu bod yn dysgu Cymraeg yn yr ysgol, a rôl y system addysg yn y gwaith o gyrraedd miliwn o siaradwyr, rhaid inni sicrhau bod yr unigolion hyn yn parhau i gael cyfleoedd i siarad Cymraeg er mwyn parhau i

ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg. Byddai lleihau'r gwypm ôl-16 hon fymryn yn ein helpu i gyrraedd miliwn o siaradwyr yn gynt.

I'r perwyl hwn, sefydlwyd Grŵp Cynllunio Ôl-16 gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol gyda chynrychiolaeth o'r sector addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith i gynghori ar lunio cynllun gweithredu, gyda'r nod o gynyddu'r cyfraddau dilyniant ôl-16. Y canlyniad oedd cyhoeddi *Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg* y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ym mis Rhagfyr 2018, ac fe'i lanswyd gan y Gweinidog Addysg ym mis Ionawr 2019.


Mae'r cynllun yn gosod gweledigaeth tymor byr, canolig a hir sy'n canolbwyntio ar chwe philer allweddol i ddatblygu'r sector alwedigaethol sef:

- Profiad y Dysgwr
- Capasiti Staffio
- Darpariaeth
- Adnoddau
- Asesu a Chymwysterau
- Ymwneud â Chyflogwyr

Mae hefyd yn cyflwyno strwythur i gefnogi a thargedu holl ddysgwyr y sectorau addysg bellach a phrentisiaethau gydag ymyraethau a fydd yn eu galluogi i gynnal a datblygu eu sgiliau Cymraeg.

Datblygwyd adnoddau i'r sector addysg bellach yn y meysydd blaenoriaeth mewn ymateb i anghenion yn ystod y flwyddyn, ynghyd â chefnogi prosiectau penodol i ddatblygu dysgu dwyieithog.

Siart 8: Cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch fel canran o gofrestriadau Cymraeg TGAU ddwy flynedd yn gynharach – iaith gyntaf ac ail iaith



Mae Siart 8 uchod yn dangos erbyn y flwyddyn academiaidd 2018/19 bod 4.8% o ddysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith cyntaf, wedi cofrestru ar gyfer Safon Uwch iaith gyntaf. Ac roedd 1.1% o ddysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg ail iaith wedi cofrestru ar gyfer Safon Uwch ail iaith.


Yn gyffredinol, ymddengys nad yw'r cynnydd yn y ganran sy'n sefyll TGAU Cymraeg (gw. Siart 4) wedi trosglwyddo i'r nifer sy'n dilyn Safon Uwch Cymraeg.

Mae amcan penodol yn *Cymraeg mewn addysg: cynllun gweithredu 2017 i 2021* i fynd i'r afael â'r her o gynyddu'r niferoedd sy'n sefyll Cymraeg fel pwnc Safon Uwch. Mae grŵp o randdeiliaid sy'n cynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cymwysterau Cymru, CBAC, adrannau Cymraeg y prifysgolion, yr Urdd, y consortia addysg rhanbarthol ac athrawon wedi'i sefydlu i symud y gwaith yn ei flaen.

Nid yw'r Gymraeg mewn sefyllfa unigryw yn hyn o beth, gyda nifer o bynciau Safon Uwch yn gweld gostyngiad yn ystod y blynyddoedd diweddar oherwydd y dewis cynyddol o ran y pynciau y gall myfyrwyr ysgol eu dilyn. Er enghraifft, mae hyn wedi effeithio ar y nifer sy'n dilyn Safon Uwch Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg.

Er mwyn datblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ym maes addysg bellach, rydym wedi parhau i gydweithio gyda'n partneriaid i annog cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n manteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, gan fonitro twf y ddarpariaeth honno gyda Changen Cynllunio a Chyllido Addysg Ôl-16 y Llywodraeth. Bydd cynllun gweithredu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gosod cyfeiriad a chefnogaeth pellach i gynyddu'r ddarpariaeth at y dyfodol.

Siart 9: Canran y gweithgareddau addysg sy'n cael eu cynnal yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn ôl y math o ddarparwr



* Gwnaed gwaith dadansoddi pellach i ddeall y rheswm dros y gostyngiad o 7.0% (2015/16) i 5.2%. Roedd y dadansoddi hwn yn dangos bod dau sefydliad addysg uwch wedi gweld gostyngiad mawr yn eu data o ran gweithgarwch dysgu, sef Grŵp Llandrillo Menai a Choleg Cambria. Edrychodd y ddau sefydliad ar eu data eto a gweld nad oedd y data wedi'i fewnbynnu'n gywir ym maes LA26 (y maes yng Nghofnod Dysgu Gydol Oes Cymru sy'n cofnodi iaith y ddarpariaeth) yn ystod y flwyddyn, ac nad oedd craffu priodol wedi bod cyn cadarnhau'r data erbyn y dyddiad cau. Awgrymodd Grŵp Llandrillo Menai hefyd, am fod mwy o ddysgwyr yn ail-sefyll eu harholiadau TGAU Saesneg, fod hyn wedi effeithio rhywfaint ar ganran y gweithgareddau cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog.

Mae dadansoddi pellach wedi dangos pe byddai'r ddau sefydliad wedi cofnodi eu data'n gywir, a phe byddai wedi bod yn debyg i ddata 2015/16, y byddai'r gweithgareddau dysgu addysg uwch ar gyfer 2016/17 wedi bod yn 7.6%, sef cynnydd o 0.6 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae canran y gweithgareddau addysg sy'n cael eu cynnal yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn yr ysgolion wedi aros yn weddol gyson dros y blynyddoedd diwethaf.

Gwelwyd cynnydd yn y gweithgareddau Cymraeg a dwyieithog a gynhaliwyd mewn sefydliadau addysg bellach dros y flwyddyn ddiwethaf ond ychydig o ostyngiad yn y rhai sy'n cael eu cynnal ar ffurf dysgu yn seiliedig ar waith. Er hyn, mae canran y gweithgareddau addysg sy'n cael eu cynnal yn Gymraeg neu'n ddwyieithog gan y tri darparwr wedi cynyddu dros y pedair blynedd diwethaf.

Rydym yn parhau i gydweithio ag Adran Cynllunio a Chyllido Addysg Ôl-16 y Llywodraeth er mwyn hyrwyddo twf darpariaeth addysg a hyfforddiant alwedigaethol ddwyieithog a gosodwyd targedau ar y sefydliadau ar gyfer y meysydd blaenoriaeth.

Mae Cynllun Gweithredu Ôl-16 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gosod cyfeiriad ar gyfer gwella'r seilwaith a fydd yn cynyddu'r ddarpariaeth a'r cyfleoedd i ddilyn hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Rydym hefyd yn parhau i gydweithio gyda'n partneriaid i hybu prentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, gan ddylanwadu ar ddogfennau polisi i sicrhau bod pobl ifanc yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael a bod darparwyr yn cynyddu darpariaeth mewn meysydd blaenoriaeth.³

Addysg Uwch


Cefnogir y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu'r sector addysg uwch cyfrwng Cymraeg mewn partneriaeth â'r sefydliadau sy'n gweithio yn y maes. Rhennir y gwaith i dri chategori, sef:

- cynyddu darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg y prifysgolion, gan greu dilyniant ieithyddol
- cefnogi gweithgareddau craidd sy'n cynnwys cynllunio academiaidd, hyrwyddo addysg uwch cyfrwng Cymraeg, a chefnogi ymchwil, ynghyd â datblygu'r dystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg
- y cynllun ysgoloriaethau sy'n cynnig cefnogaeth ariannol i fyfyrwyr sy'n cwblhau rhywfaint neu'r cwbl o'u hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ers sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2011, gwelwyd bod y cofrestriadau gan fyfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru sy'n defnyddio o leiaf rhywfaint o Gymraeg yn eu haddysg wedi cynyddu'n raddol dros y blynyddoedd. Mae'r ganran sy'n gwneud o leiaf 40 credyd yn Gymraeg wedi aros yn eithaf sefydlog. Gweler Siart 10.

³ Ceir gwybodaeth am gynllun prentisiaethau'r Urdd yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Siart 10: Canran y cofrestriadau gan fyfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu haddysg



Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA (Cyhoeddir data 2018/19 ym mis Gorffennaf 2020).

O'r 5,315 o fyfyrwyr a astudiodd o leiaf 5 o gredydau trwy'r Gymraeg, astudiodd 2,410 o leiaf 40 credyd yn y Gymraeg, ac astudiodd 1,300 o leiaf 80 credyd yn y Gymraeg; ac astudiodd 710 gyfanswm o 120 credyd yn y Gymraeg.

Mae nifer y staff sy'n gallu addysgu trwy'r Gymraeg wedi cynyddu 23 y cant rhwng 2011/12 a 2017/18 ond wedi gostwng yn y blynyddoedd diweddar. Mae'r nifer sy'n addysgu mewn gwirionedd wedi aros yn gymharol sefydlog ers 2011/12, er gwaetha'r cynnydd mewn capasiti i addysgu yn y Gymraeg.

Cymraeg i Oedolion

Llwyddodd 12,680 o ddysgwyr ddilyn cwrs Dysgu Cymraeg yn ystod blwyddyn academaidd 2017-18 (bydd data blwyddyn academaidd 2018-19 yn cael ei gyhoeddi maes o law).

Yn ogystal â datblygu ei darpariaeth prif ffrwd, ehangwyd y cyfleoedd i oedolion ddysgu Cymraeg drwy raglen Cymraeg Gwaith yn ystod 2018-19.

Darparodd Cymraeg Gwaith hyfforddiant i dros 2,500 o weithwyr o ystod o eang o weithleoedd yn ystod 2018-19. Roedd y cyrsiau yn cynnwys hyfforddiant wedi'i deilwra i anghenion y rheini sy'n gweithio ym meysydd iechyd a gofal plant. Llwyddodd dros 4,000 o weithwyr hefyd i ddilyn cwrs ar-lein 'Croeso Cymraeg Gwaith' i ddatblygu sgiliau Cymraeg i'w defnyddio wrth eu gwaith.

Mae'n galonogol gweld bod cymaint o ddiddordeb ar draws y byd mewn dysgu Cymraeg. Yn ogystal â chyfraniad gwerthfawr y Ganolfan Ddysgu Cymraeg Genedlaethol, mae nifer cynyddol o bobl yn defnyddio dulliau eraill i ddysgu

Cymraeg megis Duolingo a Say Something in Welsh. Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn gweithio mewn partneriaeth gyda darparwyr eraill i gynnig cefnogaeth i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau ieithyddol. Mewn byd lle mae pawb yn brysur, mae'n bwysig defnyddio technoleg i alluogi pobl i ddysgu Cymraeg mewn pa bynnag leoliadau ac ar ba bynnag amseroedd sy'n gweithio orau i'r dysgwr unigol.

Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau

Gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar


Mae Mudiad Meithrin yn parhau i ddarparu ystod eang o gefnogaeth i'w aelodau ac yn cynnal rhaglen hyfforddiant proffesiynol parhaus 'Academi' ar gyfer staff a gwirfoddolwyr mewn lleoliadau gofal plant ledled Cymru.

Ehangwyd rhaglen 'Croesi'r Bont', sy'n cyflwyno methodolegau trochi'r Gymraeg i ymarferwyr mewn Cylchoedd Meithrin, i ardaloedd newydd o Gymru.

Mae rhaglen hyfforddiant Mudiad Meithrin hefyd wedi galluogi ymarferwyr a darpar ymarferwyr i gymhwyso er mwyn gallu gweithio'n hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg.

Athrawon

Siart 11: Nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg



Mae Siart 11 yn dangos bod nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi aros yn gymharol gyson ers 2015/16.

- Yn fras, cafodd digon o athrawon cynradd cyfrwng Cymraeg eu recriwtio er mwyn parhau ar y trywydd i gyrraedd targedau *Cymraeg 2050* ar gyfer cynyddu'r gweithlu cyfrwng Cymraeg.
- Roedd 2,835 o athrawon cynradd cyfrwng Cymraeg ym mlwyddyn academaidd 2018/19 o'i gymharu â'r targed yn *Cymraeg 2050* ar gyfer 2021 o 3,100, hynny yw diffyg o 265 (9%).

- Cymhwysodd 110 yn athrawon cynradd cyfrwng Cymraeg ar gyrsiau Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yn 2017/18. Byddai cyfran o'r athrawon hyn wedi mynd ymlaen i swyddi dysgu yn 2018/19.
- Roedd 8 o bobl yn hyfforddi'n athrawon cynradd cyfrwng Cymraeg drwy'r Rhaglen Athrawon Graddedig (RhAG) ym mlwyddyn academiaidd 2018/19.
- Os bydd niferoedd tebyg yn cymhwyso dros y 3 blynedd nesaf, bydd tua 150 o athrawon cynradd yn fwy na'r targed erbyn 2021, ac eithrio trosiant staff.

Bu recriwtio athrawon uwchradd yn fwy o her:

- Yn 2018/19, roedd 2,250 o athrawon uwchradd yn addysgu yn Gymraeg o'i gymharu â'r targed ar gyfer 2021 o 2,800, sef diffyg o 550 (20%).
- Cymhwysodd 75 yn athrawon uwchradd cyfrwng Cymraeg ar gyrsiau AGA yn 2017/18. Byddai cyfran o'r athrawon hyn wedi mynd ymlaen i swyddi dysgu yn 2018/19.
- Roedd 24 o bobl yn hyfforddi'n athrawon uwchradd cyfrwng Cymraeg drwy RhAG yn 2018/19.
- Os bydd niferoedd tebyg yn cymhwyso dros y 3 blynedd nesaf, bydd diffyg o tua 200 yn erbyn targed 2021, ac eithrio trosiant staff.

Mae camau ar waith i ddenu, gwella sgiliau a chefnogi athrawon ac i gynllunio'r gweithlu'n bwrpasol er mwyn symud tuag at y targedau (manylion isod).

1. Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion

Er mwyn dod i wybod mwy am sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg, yn ystod 2018-19 cwblhawyd y gwaith paratoadol ar gyfer cynnal Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion.

Mae'r cyfrifiad yn cynnwys gwybodaeth ar sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu a'u gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cafodd y cyfrifiad cyntaf ei gyflwyno ym mis Tachwedd 2019. Mae ysgolion wedi bod yn llenwi'r data a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ers hynny. Mae rhai ysgolion yn dal i gyflwyno eu data a byddwn yn cau'r cyfrifiad am y flwyddyn hon cyn hir. Wedi hynny, byddwn yn dadansoddi'r data, gyda'r bwriad o gyhoeddi data o'r cyfrifiad cyntaf yn ystod haf 2020.

Bydd y data a gesglir drwy'r cyfrifiad, ynghyd â data arall ar y niferoedd a dderbynnir i raglenni AGA a nifer y graddedigion Cymraeg yn helpu i greu darlun mwy cyflawn o'r cynnydd a wneir tuag at gyflawni targedau *Cymraeg 2050*.

Bydd yr wybodaeth hon, ynghyd â gwybodaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol yn eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, cynlluniau busnes ysgolion y 21ain ganrif a chynigion trefniadaeth ysgolion, yn helpu i wella gwaith a wneir i gynllunio'r gweithlu i'r dyfodol.

Dylid cofio bod nifer o'r athrawon sy'n siarad Cymraeg yn addysgu eu pynciau drwy gyfrwng y Saesneg, neu'n gweithio mewn lleoliadau addysg lle nad oes cyfle iddynt ddefnyddio'u Cymraeg.

2. Rhaglenni hyfforddiant ac addysg cychwynol athrawon

Nod arall yw sicrhau bod rhaglenni hyfforddiant ac addysg gychwynol athrawon yn meithrin gwerthfawrogiad o'r Gymraeg ac yn rhoi cyfleoedd i ddatblygu hyfedredd yn y Gymraeg ac arbenigedd i addysgu drwy'r Gymraeg.

I'r perwyl hwnnw, bydd rhaglenni AGA achrededig o fis Medi 2019 yn cyflwyno o leiaf 25 awr o hyfforddiant iaith Gymraeg i bob athro dan hyfforddiant a byddant yn asesu eu sgiliau Cymraeg yn erbyn un fframwaith cyffredin.

Bydd y fframwaith hefyd yn sail i gyflwyno rhaglenni dysgu proffesiynol, a bydd yn galluogi ymarferwyr i nodi eu cynnydd yn erbyn y Safonau Proffesiynol perthnasol yn y Pasbort Dysgu Proffesiynol. Bydd y fframwaith hefyd yn cael ei ddefnyddio yn y Cyfrifiad o'r Gweithlu Ysgolion.

Bydd asesu gallu athrawon dan hyfforddiant i addysgu'r Gymraeg i ddysgwyr yn cael ei gynnwys fel rhan graidd o'r rhaglenni AGA. Bydd mentoriaid yn parhau i gael eu hariannu am flwyddyn drosiannol, er mwyn sicrhau bod athrawon newydd gymhwysu mewn ysgolion uwchradd cyfrwng-Cymraeg yn cael cefnogaeth ddigonol i wella'u sgiliau Cymraeg, a'u cefnogi i ddatblygu sgiliau'r dysgwyr.

3. Iaith Athrawon Yfory

Mae *Iaith Athrawon Yfory*, a lanswyd ym mis Medi 2018, yn rhoi cymhelliant ariannol i fyfyrwyr AGA sy'n dechrau ar raglen AGA Ôl-raddedig uwchradd, gan eu galluogi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu addysgu'r Gymraeg fel pwnc. Bydd y cymhelliant hwn yn parhau yn 2019/20 a bydd myfyrwyr AGA cymwys yn gallu derbyn y canlynol:

- (i) £2,500 ar ôl cwblhau rhaglen AGA ôl-raddedig uwchradd gymwys yng Nghymru sy'n arwain at SAC
- (ii) £2,500 ar ôl cwblhau'r cyfnod sefydlu mewn ysgol uwchradd neu ddwyieithog a gynhelir neu addysgu Cymraeg mewn unrhyw leoliad uwchradd a gynhelir yng Nghymru.

4. Y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg

Mae'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg yn darparu hyfforddiant dwys i ddatblygu sgiliau Cymraeg a methodoleg dysgu iaith ymarferwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg ar draws Cymru.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19, darparwyd 5 cwrs Cymraeg Mewn Blwyddyn mewn 4 lleoliad ar draws Cymru gyda 68 cyfranogwr. Yn ogystal, darparwyd cyrsiau ar ystod o lefelau gyda 143 cyfranogwr.

Dyfarwyd cytundeb i gynnal Gwerthusiad o'r Cynllun Sabothol ym mis Ebrill 2019. Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi yn ystod y gwanwyn 2020.

5. Gwaith gyda'r consortia rhanbarthol

Cafodd y consortia rhanbarthol arian penodol o gyllideb Gwella Safonau Mewn Ysgolion i gefnogi'r gwaith o ddarparu hyfforddiant a datblygiad proffesiynol Cymraeg a chyfrwng Cymraeg. Yn 2018-19, dyrannwyd £2,600,000.

Fel rhan o amodau grant Gwella Safonau Mewn Ysgolion, lluniodd y consortia gynlluniau blynyddol ar gyfer darparu dysgu proffesiynol, ac mae enghreifftiau o'r gweithgareddau a gynigir ganddynt yn cynnwys:

- cyrsiau sgiliau Cymraeg
- cefnogi methodoleg addysgu'r Gymraeg drwy gydweithio rhwng ysgolion
- datblygu adnoddau i gefnogi addysgu'r Gymraeg
- cyllido arweinwyr Cymraeg mewn clystyrau.

Darparwyd cyllid hefyd drwy'r Grant Gwella Addysg. Bu'r awdurdodau lleol yn defnyddio'r cyllid hwn i gefnogi elfennau o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg e.e. cyllid ar gyfer canolfannau trochi.

6. £150,000 i annog mwy i astudio lefel A Cymraeg

Mae cynyddu nifer yr athrawon a all addysgu Cymraeg fel pwnc yn ddibynnol ar gyflenwad digonol o raddedigion Cymraeg o brifysgolion, o gronfa o ddysgwyr sydd wedi astudio'r Gymraeg ar lefel Safon Uwch. Mae nifer y dysgwyr sy'n dewis astudio Safon Uwch Cymraeg wedi gostwng yn raddol dros y degawd diwethaf, ac mae'r Cynllun Cymraeg Mewn Addysg yn cynnwys targedau i wyrddroi'r tueddiad hwn.

Ers mis Mehefin 2018, mae swyddogion wedi bod yn gweithio gyda nifer o'n rhanddeiliaid, gan gynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ysgolion, colegau, prifysgolion, y consortia addysg, Cymwysterau Cymru, CBAC, CYDAG a'r Urdd i ddatblygu rhaglen o weithgareddau gyda'r nod o gynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio'r Gymraeg fel pwnc ar lefel Safon Uwch ac yn y brifysgol. Mae'r Gweinidog addysg wedi cytuno i ddyrannu £145,000 yn 2019-20 i gefnogi camau i helpu i gyflawni'r gweithgareddau hyn.

7. Cynllun Marchnata

O ran marchnata addysg cyfrwng Cymraeg, dyma rai o'r uchafbwyntiau yn ystod y cyfnod adrodd:

- Ymgyrch fusnes a chystadleuaeth Seren a Sbarc – gofyn i fusnesau roi sticeri Seren a Sbarc yn eu ffenestri er mwyn ceisio annog plant i ddefnyddio Cymraeg mewn siopau lleol.
- Seren a Sbarc yn mynd i ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn, yn cynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol.
- Creu fideos astudiaeth achos o rieni sy'n mynd i sesiynau Cymraeg i Blant i'w defnyddio ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol a chan swyddogion Cymraeg i Blant.
- Ymgyrch cyfryngau cymdeithasol i hybu tudalennau Facebook lleol grwpiau Cymraeg i Blant.

- Dydd Miwsig Cymru 2019 – ailfrandio Seren a Sbarc er mwyn rhoi edrychiad ac agwedd newydd iddyn nhw i apelio mwy at y gynulleidfa darged. Creu comig arbennig Seren a Sbarc a chân gyda fideo ar gyfer Dydd Miwsig Cymru. Taith bwm-bocs i 10 ysgol ar draws Cymru.
- Ffolderi mamolaeth a cardiau sgan Cymraeg i Blant yn mynd i ysbytai.
- Ymgyrch dilyniant gyda chynnwys ar ein gwefan ac astudiaethau achos.
- Mynychu ymgynghoriadau CSGA er mwyn dod i ddeall yn well beth mae'r awdurdodau lleol ei angen o ran marchnata a negeseuon.
- Lansio llyfr cyntaf Seren a Sbarc mewn partneriaeth ag Undeb Rygbi Cymru – lansiad, copïau am ddim i bob ysgol, fideo gyda Scott Williams, ymgyrch cyfryngau cymdeithasol.
- Cystadlaethau Seren a Sbarc er enghraifft cystadleuaeth tynnu llun, cystadleuaeth y Nadolig.
- Gweithio ar strategaeth farchnata ar gyfer Cymraeg mewn addysg gydag arbenigwr yn y maes.

8. Llythyr grant Cyngor y Gweithlu Addysg

Mae Llywodraeth Cymru yn anfon llythyr cynnig grant blynyddol at Gyngor y Gweithlu Addysg (y Cyngor / CGA) er mwyn ymdrin ag unrhyw weithgareddau rydym yn dymuno iddynt ymgymryd â nhw ar ein rhan, ac nad ydynt wedi'u cynnwys yn eu prif swyddogaethau (mae swyddogaethau'r Cyngor wedi eu gosod allan yn Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015).

O safbwynt recriwtio myfyrwyr Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA), mae Llywodraeth Cymru yn rhoi targedau lefel uchel blynyddol i'r Cyngor, sydd yna'n neilltuo'r rhain i bartneriaethau sy'n darparu ar lefel pwnc a chyfnod. Ar gyfer 2020/21, gwnaeth Llywodraeth Cymru gynnwys paragraff yn ei llythyr i'r Cyngor ynglŷn â dyraniadau a disgwyliadau recriwtio cyfrwng-Cymraeg. Roedd hyn yn cynnwys gofyniad i Bartneriaethau weithio tuag at sicrhau bod 30% o'r recriwtio i bob Rhaglen AGA yn fyfyrwyr dan hyfforddiant sy'n hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Os nad yw'r broses monitro yn dangos tystiolaeth o gynnydd yn nifer y myfyrwyr cyfrwng-Cymraeg, gall fod yn ofynnol i Bartneriaethau ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig o'r hyn maent yn ei wneud i gyrraedd y nod (dylid nodi nad yw'r 30% y cyfeirir ato uchod yn cynnwys y myfyrwyr hynny sy'n hyfforddi i addysgu'r Gymraeg fel pwnc).

9. Prosiect i annog dilyniant o'r sector cynradd i uwchradd

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn peilota cynllun ers yr hydref i gefnogi awdurdodau lleol ar agweddau penodol o'u CSGA, gan gynnwys materion hyrwyddo addysg Gymraeg, cefnogaeth i rieni, neu ddilyniant o un cyfnod allweddol i'r llall. Cytunodd cyngor sir Pen-y-bont ar Ogwr i weithio gyda'r Llywodraeth ar y peilot hwn, ac fel rhan o'r gwaith maent wedi bod yn trafod a chydgyllunio gydag arbenigwyr ym meysydd cynllunio ieithyddol, addysg a'r Gymraeg, yn ogystal â'i Fforwm Cynllunio y Gymraeg mewn addysg, i adnabod heriau a chryfderau'r sir o safbwynt cynllunio addysg Gymraeg.

10. Menter y Brifysgol Agored am y Gymraeg

Mae'r Brifysgol Agored wedi ennill y contract i ddatblygu llwybrau hyfforddi athrawon amgen newydd mewn ysgolion, mewn partneriaeth â'r Brifysgol, gan arwain at genhedlaeth newydd o athrawon o gefndiroedd mwy amrywiol. Byddwn yn sicrhau bod gofynion cyfrwng Cymraeg yn cael eu cynrychioli'n llawn, a bod y llwybrau allweddol hyn yn parhau i gyflenwi athrawon ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg. Mae dau lwybr yn cael eu cynnig o dan y rhaglen newydd hon.

Bwriedir i'r cwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) rhan amser alluogi athrawon dan hyfforddiant i gynnal eu hymrwymiaadau presennol, gan gynnwys cyflogaeth ac incwm, wrth astudio'n rhan-amser i fod yn athro. Rhagwelir y bydd y llwybr hwn yn darparu cyfle i hyd at 100 o fyfyrwyr astudio bob blwyddyn pan fydd yn llawn weithredol. Ni fydd cyfyngiadau ar nifer y myfyrwyr cyfrwng Cymraeg a all gael mynediad at y rhaglen hon.

Yr ail raglen fydd Llwybr Mewn Swydd, lle bydd hyfforddeion yn cael eu cyflogi mewn ysgol ac yn astudio'n rhan amser i ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC) – bydd ar gael ar gyfer y cynradd a'r uwchradd. Bydd y Llywodraeth yn talu ffioedd hyfforddi'r rhaglen hon ac hefyd yn gwneud cyfraniad cyflog i'r hyfforddeion yn y sector uwchradd. Rhagwelir y bydd uchafswm o 150 o hyfforddeion bob blwyddyn yn gallu dilyn y rhaglen hon, gyda'r posibilrwydd y bydd hyd at hanner y rheini drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y llwybrau'n cael eu cyflwyno'n raddol o fis Ebrill 2020 ymlaen.

Y Gweithlu ôl-16

Er mwyn cynyddu capasiti'r sector i ddysgu ac asesu drwy gyfrwng y Gymraeg, fel rhan o raglen 'Cymraeg Gwaith', darparodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol hyfforddiant dwys i dros 180 o ymarferwyr mewn 11 sefydliad addysg bellach yn ystod y flwyddyn.

Adnoddau addysg

Yn ystod y flwyddyn, cyfarfu'r Grŵp Rhanddeiliaid Adnoddau Addysgol Dwyieithog bedair gwaith i drafod opsiynau ar gyfer creu seilwaith cenedlaethol i ddatblygu a darparu adnoddau perthnasol ac amserol i gefnogi'r cwricwlwm a'r cymwysterau yn y dyfodol. Bydd y gwaith o ymchwilio i'r opsiynau posibl yn fanylach yn parhau yn 2019 a hynny gyda grŵp llai o randdeiliaid. Darparwyd cyngor i'r Gweinidog Addysg ei ystyried yn hyn o beth yn ystod y flwyddyn.

Mae gwaith dechreuol ar adnabod anghenion adnoddau ar gyfer chwe Maes Dysgu a Phrofiad y cwricwlwm newydd wedi dechrau gyda'r grwpiau ysgolion arloesi.

Parhaodd y gwaith o gomisiynu adnoddau ar gyfer 3-19 oed yn ystod y flwyddyn. Canolbwyntiwyd ar adnoddau i gefnogi cymwysterau cyffredinol ac ôl-16 ynghyd ag adnoddau a fyddai'n addas i'r cwricwlwm presennol a'r un newydd. Cynhaliwyd paneli adnabod anghenion gydag athrawon yn ystod haf 2018 ar gyfer Cymraeg uwchradd, Cymraeg ail iaith, Mathemateg uwchradd ac Addysg gorfforol. Ymgynghorwyd hefyd gydag athrawon Cyfrifiadureg er mwyn symud ymlaen i ddarparu adnoddau addas ar gyfer addysgu a dysgu'r cymhwyster TGAU.

Sefydlwyd cytundeb grant newydd i CBAC ddarparu fersiynau Cymraeg o werslyfrau i gefnogi'r cymwysterau newydd a chyhoeddwyd 40 teitl newydd drwy'r rhaglen honno yn ystod y flwyddyn. Cwblhaodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol y gwaith o asesu'r ddarpariaeth ac adnabod yr anghenion mewn pynciau ôl-16, yn amrywio o werslyfrau penodol i adnoddau addysgu i ymarferwyr. Mae gwaith wedi dechrau ar ddarparu'r adnoddau hynny.

Cychwynnwyd ar waith ymchwil i'r defnydd a wna athrawon, dysgwyr a rhieni o adnoddau. Bydd canfyddiadau'r ymchwil yn cyfrannu at benderfyniadau yn y dyfodol ar yr adnoddau sydd eu hangen a'u fformat. Bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn ystod 2019-20.

Ariannwyd rhagor o deitlau print a digidol i gyfres o lyfrau darllen sy'n cynorthwyo plant yng Nghyfnod Allweddol 2 sydd ag anawsterau dysgu i feistroli lythrennedd yn y Gymraeg.

Cafwyd trafodaethau gyda chwmni cyhoeddi ynglŷn a chyfieithu prawf cynnar sgrinio dyslecsia. Disgwylir cael cytundeb i fwrw ymlaen gyda'r gwaith yn 2019-20.

Dyfarnwyd cytundeb i RNIB Cymru ddarparu fersiynau Cymraeg o adnoddau mewn fformatau addas ar gyfer dysgwyr sy'n ddall neu â nam ar eu golwg. (Braille, print bras, DAISY, ffeiliau MP3).

THEMA 2: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg

Un agwedd ar ein gweledigaeth yw symud i sefyllfa lle mae miliwn o siaradwyr. Ond mae iaith sy'n ffynnu yn iaith sy'n cael ei defnyddio. Rydym am i'r defnydd o'r Gymraeg felly fod yn rhan arferol o fywyd bob dydd, fel bod siaradwyr ar bob lefel yn teimlo'n hyderus i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, a bod pobl yn cymryd camau rhagweithiol i gynnig cynnyrch a gwasanaethau yn Gymraeg.

Mae angen cyfleoedd ar bobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiol sefyllfaoedd sy'n adlewyrchu eu ffordd o fyw. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd gyda'r teulu, yn y gweithle, mewn gweithgareddau lleol, neu mewn rhwydweithiau a chymunedau diddordeb ehangach a all fod ar wasgar ym mhedwar ban byd.


Y sefyllfa gyfredol – faint sy'n defnyddio'r Gymraeg?

Un o brif dargedau *Cymraeg 2050* yw cynyddu canran y bobl 3 oed a throsodd sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o Gymraeg⁴ o'r 10% yn Arolwg Defnydd Iaith 2013-15 i 11% erbyn 2021 (ac 20% erbyn 2050).

Anodd iawn yw mesur defnydd iaith. Un ffordd o geisio gwneud hynny yw drwy gynnal arolygon defnydd iaith. Cynhaliwyd yr Arolwg Defnydd Iaith diweddaraf o safbwynt y Gymraeg yn 2013-15, ac mae'r arolwg nesaf eisoes ar y gweill (cynhelir yr arolwg rhwng Gorffennaf 2019 a Mawrth 2021).

Arolygon Defnydd Iaith fydd yn cael eu defnyddio, felly, i fonitro cynnydd tuag at y targed hwn. Ond er mwyn cael canlyniadau mwy rheolaidd, byddwn hefyd yn defnyddio canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer oedolion 16 oed a throsodd.

Siart 12: Canran y bobl 16 oed a throsodd sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac yn gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o Gymraeg yn ôl yr Arolwg Cenedlaethol



Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae canran o'r oedolion 16 oed a throsodd sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac yn gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o Gymraeg, wedi aros yn eithaf sefydlog dros y pum mlynedd diwethaf. 11% oedd y ganran yn 2018-19.

⁴ Mae hyn hefyd yn un o'r dangosyddion cenedlaethol a osodwyd i asesu'r cynnydd yn erbyn nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Y gweithle

Un o amcanion y strategaeth yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Mae'r strategaeth yn nodi: "*Mae'r gweithle'n ganolog i'n bywydau bob dydd ... [ac yn] gyfle i ddefnyddio, ymarfer a dysgu'r Gymraeg.*"

Er mwyn monitro defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, cafodd cwestiynau eu cynnwys yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19 am ddefnydd o'r Gymraeg gyda chydweithwyr a chyda phobl y tu allan i'r sefydliad fel rhan o'r swydd, yn ogystal â'r cyfleoedd a ddarperir gan gyflogwyr i gyflogeion ddysgu Gymraeg. Gwelwyd bod:


- 80% o siaradwyr Cymraeg yn siarad Cymraeg gydag o leiaf rhai o'u cydweithwyr
- Roedd rhuglder yn chwarae rôl sylweddol yn eu penderfyniad i siarad Cymraeg gyda chydweithwyr. Dywedodd 93% o siaradwyr Cymraeg rhugl eu bod yn siarad Cymraeg gydag o leiaf rhai o'u cydweithwyr sy'n siarad Cymraeg, o'i gymharu â 38% o'r rheini nad ydynt yn rhugl
- Roedd 93% o gyflogeion sy'n rhugl yn Gymraeg yn siarad o leiaf peth Cymraeg gyda phobl y tu allan i'w sefydliad
- Dywedodd ychydig yn llai na thraean o gyflogeion fod eu cyflogwr yn cynnig cyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg.

Y Gymraeg yn Llywodraeth Cymru

Ein nod yw cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ar draws pob sector. Yn hynny o beth, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn arwain drwy esiampl drwy hybu a hwyluso cynnydd yn y defnydd a wneir o'r Gymraeg gan ei gweithlu ei hun.

Yn dilyn cyfnod prysur o graffu ar arfer dda mewn sefydliadau cyhoeddus eraill yng Nghymru, megis Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Sir Ynys Môn, Heddlu De Cymru a Chomisiwn y Cynulliad, symudodd gwaith yn ei flaen i gytuno ar weledigaeth ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg o fewn Llywodraeth Cymru rhwng nawr a 2050 yn ystod y cyfnod hwn. Yn ogystal â chasglu tystiolaeth a thrafod arfer dda, paratowyd papur o ddiweddariad i Fwrdd Llywodraeth Cymru yn manylu ar waith sefydliadau eraill ac yn cynnig gweledigaeth i'w fabwysiadu gan y Llywodraeth. Mae polisi drafft ar gyfer defnydd mewnol yn cael ei hystyried ar hyn o bryd gan yr Ysgrifennydd Parhaol a'i huwch dim rheoli. Y bwriad ydy cytuno ar weledigaeth uchelgeisiol hir dymor ar gyfer y sefydliad, ynghyd â chynnig amcanion penodol ar gyfer y pum mlynedd nesaf (rhwng 2020-2025). Gobeithiwn y bydd hyn wedi'i chyhoeddi ac yn weithredol cyn pen diwedd y cyfnod adrodd.

Siart 13: Canran gweithlu'r llywodraeth sy'n defnyddio'r Gymraeg i wneud eu gwaith, yn ôl pa mor aml y maent yn ei defnyddio (a)



(a) Ni chafodd yr arolwg ei gynnal yn 2015, ac yn 2016 cafodd y categori 'Mwy o Saesneg na Chymraeg' ei rannu'n dri categori pellach, sef 'mwy o Saesneg na Chymraeg' ond yn siarad Cymraeg bob dydd, yn wythnosol, neu'n llai aml nag wythnosol.

Mae'r siart yn dangos bod canran y staff sy'n siarad 'Cymraeg bob amser' neu fwy o Gymraeg na Saesneg wedi aros yn eithaf cyson ers 2013. Yn 2016, roedd 22% yn dweud eu bod yn defnyddio rhywfaint o Gymraeg yn eu gwaith ond mwy o Saesneg, ac erbyn 2018 roedd 24% yn dweud hyn. Cafodd yr atebion posibl eu newid rhywfaint yn 2016 i roi'r opsiwn o ddweud 'Mwy o Saesneg nag o Gymraeg' – ond yn defnyddio'r atebion posibl Cymraeg bob dydd / bob wythnos / llai aml nag yn wythnosol. Mae cyflwyno'r 3 is-opsiwn hyn yn debygol o fod wedi newid sut mae pobl yn ateb y cwestiwn. Er hynny, ymddengys fod un o bob tri aelod o staff y Llywodraeth (31%) yn defnyddio rhywfaint o Gymraeg yn eu gwaith yn 2018 a 16% yn ei defnyddio o leiaf bob dydd.

O ran y sector cyhoeddus yn ehangach, estynnwyd tendrau ar gyfer rhaglen hyfforddi genedlaethol, sef Arwain Mewn Gwlad Ddwylieithog, sydd â'r nod o sefydlu ymwybyddiaeth o'r iaith a chynllunio'r gweithlu fel rhan annatod o wasanaeth y sector cyhoeddus. Adeg llunio'r adroddiad hwn, roedd y gwaith i arfarnu tendrau yn mynd yn ei flaen. Y bwriad yw lansio peilot drwy gyfrwng y tendrau hyn yn ystod 2019-20, ar sail y gwaith paratoadol a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol.

Ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, comisiynwyd cwmni annibynnol i gynnal gwerthusiad o *Mwy na Geiriau* yn Awst 2018. Nod y gwerthusiad yw asesu sut ac i ba raddau y mae *Mwy na Geiriau* wedi cyflawni ei amcanion i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg yn y maes.

Cyflwynwyd adroddiad cychwynnol yn Chwefror 2019, a'r cam nesaf fydd llunio adroddiad "theori newid" ac adroddiad terfynol yn ystod hydref 2020.

Mae'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma wedi cynnwys gwaith ymchwil desg a chynnal cyfweiliadau gyda nifer o randdeiliaid, gan gynnwys rhai o aelodau Bwrdd Partneriaeth y Gymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Canolbwyntiodd y cyfweiliadau hyn ar y cyfleoedd a'r heriau ar gyfer gwireddu prif amcanion *Mwy na*

Geiriau a pha bwyntiau allweddol y dylid mynd i'r afael â hwy fel rhan o'r gwerthusiad.

Rhodddwyd diweddariadau ar y gwaith i'r Bwrdd Partneriaeth yn ystod y flwyddyn adrodd, a chynhaliwyd gweithdy ar *Mwy na Geiriau* yn Ionawr 2018 pan gafodd y mynychwyr gyfle i roi mewnbwn i ddatblygiad y gwaith o greu theori newid.

Cymraeg Gwaith

Mae gwaith allweddol i'w wneud i ehangu cyfleoedd hyfforddi Cymraeg yn y gweithle, ac er mwyn i'r Gymraeg ffynnu ar draws pob sector mae angen sicrhau hyfforddiant a chefnogaeth i ddysgwyr yn y gweithle. Fel y nodwyd eisoes, ehangwyd y cyfleoedd i oedolion ddysgu Cymraeg drwy raglen Cymraeg Gwaith yn ystod 2018-19, gyda'r rhaglen yn darparu hyfforddiant i dros 2,500 o weithwyr o ystod o eang o weithleoedd, gan gynnwys ym meysydd ieuchyd a gofal plant. Llwyddodd dros 4,000 o weithwyr hefyd i ddilyn cwrs ar-lein 'Croeso Cymraeg Gwaith' i ddatblygu sgiliau Cymraeg i'w defnyddio wrth eu gwaith.

Defnydd o'r Gymraeg a byd busnes

Blaenoriaeth arall o safbwynt y gweithle yw annog busnesau a sefydliadau'r trydydd sector i groesawu dwyieithrwydd, ac at y diben hwn, sefydlwyd rhwydwaith newydd *Cymraeg Byd Busnes* ym mis Awst 2017.

Mae'r rhwydwaith yn cyflogi 10 swyddog ac un rheolwr ledled Cymru i ddarparu gwasanaeth i fusnesau ac elusennau i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Maent yn canolbwyntio ar ymyraethau penodol i gynyddu faint o Gymraeg sydd i'w gweld ac sy'n cael ei defnyddio, cynorthwyo busnesau i adnabod sgiliau Cymraeg sydd eisoes yn bodoli yn y gweithle, a mynd ati i recriwtio a marchnata'n ddwyieithog.

Mae'r rhwydwaith wedi parhau yn ystod 2019-20, ac yn canolbwyntio ar y sector manwerthu a bwyd a diod (yn ogystal â pheilot i gynyddu defnydd rhannau o'r sector meddygol o'r Gymraeg). Mae'r gwaith yn asio gyda gwaith ar Bwynt Cyswllt y Gymraeg, a fydd yn cael ei lansio yn ystod 2020, ac yn teilwra gweithgarwch y rhwydwaith ar sail y dystiolaeth a'r deallusrwydd busnes a ddarperir gan y Pwynt Cyswllt.

Ar y cyd â swyddogion Llywodraeth Cymru, crëwyd system o ddangosyddion i edrych ar sefyllfa'r cwmnïau targed cyn, yn ystod, ac ar ôl ymwneud swyddogion Byd Busnes â'r cwmnïau. Bydd y dangosyddion hyn ar gael yn electronig, fel bod modd gweld datblygiad y prosiect yn fyw.

'Pwynt Cyswllt' ieithyddol

Yn ystod y flwyddyn, bu gwaith paratoi sylweddol i sefydlu 'pwynt cyswllt ieithyddol' i gynorthwyo'r sector gwirfoddol a phreifat i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Mae hwn yn brosiect sylweddol iawn ac fe'i rheolir gan Is-adran y Gymraeg Llywodraeth Cymru, gyda chymorth Adran Busnes Cymru y Llywodraeth. Bydd modd cysylltu drwy'r ffôn, e-bost, neges destun a, maes o law, drwy ddulliau eraill.

Bydd y gwasanaeth yn cynnig cyfieithiadau am ddim hyd at 500 gair ac yn cynnig gwasanaeth gwirio testun Cymraeg. Bydd hefyd yn ateb ymholiadau o bob math am y Gymraeg ac yn cyfeirio pobl at ffynonellau cymorth defnyddiol mewn sefydliadau perthnasol.

Mae'r pwynt cyswllt wedi'i asio'n dynn â systemau cyfrifiadurol 'canolfan alwadau' Busnes Cymru. Bydd yn cael ei lansio yn gynnar yn 2020 ac yn gwneud defnydd o systemau deallusrwydd busnes i adrodd ar dueddiadau'r ymholiadau ac i adnabod bylchau y gellir eu llenwi gan waith y swyddogion busnes.

Gwasanaethau Cymraeg

O wella sefyllfa'r Gymraeg yn y gweithle, bydd hynny hefyd yn hwyluso ein hymdrechion i ddarparu rhagor o wasanaethau, a'r rheini'n wasanaethau gwell, drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn y cyd-destun hwn, daeth un set o Reoliadau Safonau'r Gymraeg i rym yn ystod y cyfnod adrodd, sef Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) a wnaeth bennu safonau ar gyfer byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r GIG, Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned, a Chynghorau Iechyd Cymuned. Mae'r cyrff hynny eisoes wedi derbyn hysbysiadau cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg ac wedi bod yn cydymffurfio â'r safonau ers mis Mai 2019. Mae'r Rheoliadau hyn, a'u gweithrediad gan gyrff iechyd wedi rhoi hawliau i ddinasyddion wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd yng Nghymru.

O ran datblygu mwy o Reoliadau Safonau'r Gymraeg, cafodd y broses ei oedi tra bo gwaith yn digwydd ar ddatblygu Bil y Gymraeg. Penderfynwyd yn Chwefror 2019 i beidio â bwrw ymlaen â'r Bil. Ers hynny, mae'r gwaith o ddatblygu rheoliadau wedi ail-ddechrau, gan flaenoriaethu rheoliadau i wneud safonau i'r Rheoleiddwyr Iechyd a'r Cwmnïau Dŵr.

Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg

Ein nod yw sefydlu arferion cadarnhaol o ran defnydd iaith, ynghyd â chyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio Cymraeg yn gymdeithasol.

Sefydlwyd Rhaglen Hybu yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys sefydlu grŵp o randdeiliaid allanol ar ffurf Bwrdd Cynllunio i lywio'r gwaith. Roedd gwaith y Bwrdd Cynllunio yn cynnwys arbenigwyr a'n cynorthwyodd i baratoi i lunio rhaglen o weithgareddau i gynyddu defnydd o'r Gymraeg, e.e. prosiectau megis Deall Dwyieithrwydd, Rhwydwaith Cymraeg Byd Busnes, Polisi Trosglwyddo'r Gymraeg a'r Pwynt Cyswllt a grybwyllir mewn manau eraill yn yr adroddiad hwn. Lanswyd ein Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg ym mis Hydref 2018, ac mae gwybodaeth am y cynllun hwnnw i'w chanfod isod.

Er mwyn meithrin cysylltiadau cryfach rhwng ysgolion, sefydliadau ieuenctid a grwpiau cymunedol, ein nod yw rhoi fframwaith ystyrlon ar waith sy'n annog arferion iaith cadarnhaol ymhlith plant a phobl ifanc. Mae'r grantiau a ddyrannwyd i'n partneriaid grant yn 2018-19 yn cynnwys cyfleoedd anffurfiol i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Ariannwyd yr Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Mentrau

laith, a Maes B yr Eisteddfod Genedlaethol drwy'r cynllun grant, ac mae'r cyfleoedd a ddarperir gan y partneriaid hyn wedi'u hanelu at bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed.

Adroddwyd y llynedd bod ymarfer mapio darpariaeth cyfleoedd ieuenctid cyfrwng Cymraeg ar waith. Mae'r partneriaid grant yn parhau â'r gwaith hwn, gan weithredu ar ganlyniadau gwaith mapio a chynllun datblygu'r Fframwaith Sirol ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc. Mae'r cydweithio sy'n digwydd ymysg ein partneriaid grant yn galluogi iddynt adnabod cyfleoedd newydd i gydweithio neu ddatblygu gwasanaethau newydd i annog arferion iaith cadarnhaol ymhlith plant a phobl ifanc.

Yn ystod y cyfnod adrodd, comisiynwyd cwmni allanol i ymgymryd ag adolygiad o'r Siarter laith. Bydd yr adolygiad hwnnw'n adrodd yn ystod 2020.

Grantiau

Parhawyd i roi cefnogaeth grant i sefydliadau sy'n cynnal gweithgareddau sy'n hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Dyma trydydd blwyddyn y cylch grant, a dyfarnwyd grant gwerth dros £4 miliwn i'n partneriaid: Clwb Ffermwyr Ifanc Cymru, Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Merched y Wawr, Mentrau laith Cymru, y Mentrau laith, yr Urdd a'r Papurau Bro.

Gyda'r cymorth ariannol hwn, llwyddodd y partneriaid uchod i gynnal dros 29,000 o weithgareddau, gyda mwy na 893,000 yn mynychu ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg.

Yn ogystal â hynny, mynychodd 9,594 o blant a phobl ifanc weithgareddau cymunedol y clybiau Ffermwyr Ifanc. Llwyddodd Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd i ddenu mwy o ymwelwyr nag erioed o'r blaen gan gynnal gŵyl agored, ddi-ffiniau a chynhwysol ym Mae Caerdydd fis Awst 2018. Amcangyfrifir bod 500,000 o fynychwyr wedi ymweld â'r maes yn ystod yr ŵyl. Mynychodd 88,000 o bobl Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed yn ystod 2018. A daeth dros 40,000 o bobl drwy'r gatiau yng ngŵyl Tafwyl.

O ran y Papurau Bro, mae ganddynt gylchrediad o 45,000 yn fisol, gyda dros 3,000 o wirfoddolwyr yn gweithio'n ddygn i wneud hyn yn bosibl.

Am y tro cyntaf, ymwelodd Ras yr Iaith â gogledd ddwyrain Cymru ac Eisteddfod Ryngwladol Llangollen yn ystod haf 2018 cyn ymlwybro ar hyd y gogledd, ar hyd arfordir y gorllewin cyn gorffen yng Nghaerffili ar y trydydd diwrnod. Ymwelwyd â 17 tref i gyd.

Bu swyddogion y Llywodraeth yn gweithio'n agos gyda Mentrau laith Cymru i barhau i adeiladu ar Mentro Mwy – rhaglen ddatblygu sy'n cynnwys cryfhau gwasanaethau i gwsmeriaid, a chysoni'r lefel ddisgwyliedig o wasanaethau ar draws Cymru. Rhoddwyd sylw yn ystod y flwyddyn adrodd hon i hyfforddiant a chymhwysio Mentrau laith wrth iddynt weithio tuag at ennill marc ansawdd PQASSO.

Cynhaliwyd tri chyfarfod o'r Grŵp Hyrwyddo, sy'n cynnwys ein partneriaid grant yn ogystal â phartneriaid allweddol eraill. Ymysg eitemau'r cyfarfodydd, cafwyd

cyflwyniadau ar helpu'r di-Gymraeg i gael mynediad at ddeunydd Cymraeg, Dysgu Anffurfiol i Ddysgwyr, Radio Cymru, Trosglwyddiad Iaith a'r Siarter Iaith.

Annog plant i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol

Drwy gyfrwng ein cynllun grant, ariannwyd amrywiol gyfleoedd i deuluoedd ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol.

Yn ystod 2018/19, paratowyd dadansoddiad o'r targedau grant ym maes teuluoedd er mwyn gallu rhannu gwybodaeth ac adnoddau mewn ffordd effeithiol. Mewn cyfarfod ym mis Tachwedd, rhannwyd yr wybodaeth gyda phartneriaid ym maes y blynyddoedd cynnar, Cymraeg i Blant a Mudiad Meithrin. Dangosodd y dadansoddiad bod amrywiaeth eang o gyfleoedd i deuluoedd ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant.

Ceir clybiau wythnosol, taith Magi Ann, clwb Doti a Fi, sesiynau megis Sblash a Chân a 'Siglo a Wiglo' sy'n cyfuno sesiynau i godi hyder rhieni yn y Gymraeg gyda gweithgareddau cadw'n heini i rieni a phlant. Yn ogystal, ceir amrywiaeth o weithgareddau, ymweliadau, a sesiynau eraill a oedd yn apelio i blant a theuluoedd.

Trydydd sector

Ein nod yw cryfhau'r cysylltiadau â sefydliadau'r trydydd sector er mwyn cynyddu eu gallu i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn ogystal â denu a chadw gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg. Yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd, cynhaliwyd cyfarfod rhwng Gweinidog y Gymraeg a Phrif Weithredwr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) i drafod sut gall y trydydd sector wireddu amcanion *Cymraeg 2050*. Bu'r Llywodraeth yn gweithio'n agos gyda swyddfa'r Comisiynydd Iaith, Mentrau Iaith Cymru a CGGC i gynllunio a chefnogi gallu'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg ac i ddenu gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg.

Siaradwyr Cymraeg newydd

Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus, sicrhodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol bod rhaglen 'Siarad' yn cael ei hymestyn i bob rhan o Gymru o Fedi 2018 er mwyn rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn cyd-destun anffurfiol. Rhoddwyd dysgwyr mewn parau gyda siaradwyr mwy profiadol ac roedd disgwyl iddynt dreulio o leiaf 10 awr gyda'i gilydd yn defnyddio'r Gymraeg. Y nod yw gwella hyder dysgwyr drwy roi cyfle iddynt ymarfer sgwrsio yn anffurfiol gyda siaradwyr rhugl, a'u cyflwyno i weithgareddau hamdden a diwylliannol Cymraeg yn eu hardaloedd nhw. Mae 400 o wirfoddolwyr y flwyddyn bellach yn rhan o'r prosiect Siarad.

Rhaglen Deall Dwyieithrwydd

Nod y rhaglen hon o amrywiol brosiectau yw hwyluso a normaleiddio'r Gymraeg, cynyddu ymwybyddiaeth gritigol berthnasol ohoni, herio rhagfarn ac, o ganlyniad, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

Y prif nodau yw:

- Deall a dadansoddi agweddau a naratifau gwahanol garfanau tuag at y Gymraeg.
- Dysgu gwersi o'r gwaith herio rhagfarn a hwyluso normaleiddio a wnaed mewn meysydd cydraddoldeb eraill.
- Cynyddu dealltwriaeth ffurfwyr barn ac unigolion mewn swyddi 'dylanwadol' o:
 - i) statws neu rôl y Gymraeg yn ein cymdeithas
 - ii) eu perthynas â'r Gymraeg
- Creu rhaglen tymor hir er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiadau gwrth-Gymraeg, gwella agweddau o blaid y Gymraeg, a chynyddu'r defnydd ohoni.

Mae sawl prosiect eisoes ar waith neu ar fin dechrau o dan faner 'Deall Dwyieithrwydd', gan gynnwys:

- Beth yw 'Brand' a naratif y Gymraeg? Mae'r prosiect ansoddol hwn yn treiddio'n ddyfnach na'r ystadegau agwedd manwl sydd gennym tuag at y Gymraeg ac yn dadansoddi sut rydym yn trafod y Gymraeg, beth yw'r naratifau a ddefnyddir yn ei chylch, pryd a chan bwy.
- ARFER (Prifysgol Bangor): prosiect sy'n defnyddio mesurau gwyddonol 'cyn ac ar ôl' i fesur yn ystadegol ddefnydd iaith mewn swyddfeydd a chanddynt nifer o siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd. Craidd y cynllun yw gwyddor ymddygiadol sy'n nodi bod defnyddio 'addewidion' yn ffordd adeiladol o greu newid ymddygiad ieithyddol hirymarhous. Dechreuodd y prosiect hwn fel rhan o gyfres grantiau *Cymraeg 2050*. Bydd y prosiect yn cael ei ehangu yn ystod y gwanwyn.
- Sefydlu a mesur cynnydd mewn arferion ymddygiadol ac agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith yw nod y Siarter Iaith. Gwneir hyn drwy gynllunio er mwyn mesur cynnydd yn y defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc y tu fewn a thu allan i'r ysgol drwy ddefnyddio system gyfrifiadurol 'Y We Iaith', gan ddod â phartneriaid eraill ynghyd i weithredu. Bydd gwneud hyn yn y cwricwlwm ac mewn gweithgareddau ehangach, yn cyfrannu at sicrhau cyfle i bob plentyn a pherson ifanc ddod yn gwbl ddwyieithog.
- Mae'r Siarter iaith yn destun gwerthusiad allanol ar hyn o bryd. Ei nodau yw sicrhau disgyblion sydd yn:
 - hyderus i ddefnyddio'u sgiliau iaith Gymraeg
 - meithrin agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith
 - cynyddu defnydd o'r iaith y tu fewn a thu allan i'r ysgol.
- Ceir prosiectau cysylltiedig ar gyfer ysgolion cynradd Saesneg (Cymraeg Campus), ac ar gyfer ysgolion uwchradd Cymraeg (PCAI, neu Prosiect Cefnogi Arferion iaith).

- Arwain Mewn Cenedl Ddwieithog: Bydd y rhaglen ymwybyddiaeth iaith gritigol hon yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar ddatblygu uwch arweinwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n defnyddio strwythurau Academi Wales.
- Polisi Trosglwyddo'r Gymraeg (am ymdriniaeth fanylach, gweler tudalen 6 uchod): cynhaliwyd gwaith â rhanddeiliaid mewnol ac allanol ar y polisi hwn. Mae'r broses ddrafftio wedi dechrau a rhagwelwn ddefnyddio gwyddor ymddygiadol i gynyddu'r niferoedd sy'n trosglwyddo, ac, o bosibl, broses o arbrofion wedi'u samplu ar hap er mwyn sicrhau union ddylanwad unrhyw ymyraethau polisi a ddatblygir. Mae'r gwaith hwn i'w seilio ar ymchwil GSR (Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth) a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru gan Brifysgol Caerdydd ac a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017. Byddwn ni'n gwahodd partneriaid rhyngwladol i gydweithio ar lunio'r ddogfen derfynol.

Dydd Miwsig Cymru

Nod ymgyrch Dydd Miwsig Cymru (DMC) yw cyflwyno cerddoriaeth Gymraeg i bobl newydd ac annog siaradwyr Cymraeg i gefnogi'r sîn gerddoriaeth Gymraeg. Mae hefyd yn gyfle i gynyddu gwelededd y Gymraeg, cynyddu diddordeb mewn cyfleoedd i ddysgu Cymraeg, newid canfyddiad pobl o'r iaith, yn ogystal â rhoi cyfleoedd i bobl ifanc ei defnyddio.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliwyd yr ymgyrch ar 8 Chwefror 2019. Hon oedd y drydedd flwyddyn i'r Llywodraeth gynnal yr ymgyrch, a dyma'r flwyddyn fwyaf llwyddiannus hyd yn hyn. Isod, ceir rhai o'r prif ganlyniadau:

- Mynychodd 4,330 o bobl ddigwyddiadau ar draws Cymru. Fe wnaeth 183 o fusnesau a 318 o ysgolion gymryd rhan mewn gweithgaredd / digwyddiadau.
- Cyfeiriodd sylw yn y wasg 28,577 o unigolion at y wefan *Cymraeg* (gwefan Llywodaeth Cymru), mwy na 14 gwaith y targed a osodwyd.
- Llwyddwyd i sicrhau 88 darn o sylw yn y wasg print, ar-lein a darlledu – mwy na 4 gwaith y targed a osodwyd. Cafwyd trydariadau gwreiddiol gan NME, BBC Breakfast, BBC Wales, BBC Radio 3, BBC Radio 4, ITV Wales News, S4C a mwy.
- Nod yr ymgyrch oedd cyrraedd dros 5 miliwn o bobl gan ddefnyddio'r hashnodau #DyddMiwsigCymru #WelshLanguageMusicDay – llwyddwyd i gyrraedd dros 74 miliwn o bobl.
- Gwylodd dros 1.8 miliwn ein cynnwys fideo dwieithog ar draws Twitter, Facebook ac Instagram.
- Defnyddiwyd yr hashnodau gan fusnesau ar draws y DU, cyrff llywodraethol, grwpiau cymunedol, busnesau mawr, cymunedau o Gymry dramor, sefydliadau cerddoriaeth a diwylliannol, gan gynnwys Cyngor Caerdydd, Dŵr Cymru, EE, Cyngor Celfyddydau Cymru a Peter's Pies.
- Dywedodd 74% o'r bobl a holwyd fod y digwyddiad wedi'u hysgogi i ddysgu Cymraeg. Dywedodd 94% o'r bobl a holwyd eu bod yn credu fod cerddoriaeth yn ffordd dda i helpu i gael mwy o siaradwyr Cymraeg.

- Roedd y digwyddiadau'n gyfle i greu ac i atgyfnerthu rhwydweithiau cymdeithasol ac i sicrhau cyfalaf cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Pyst

O dan label DMC, ariannwyd prosiect newydd, Pyst, i greu gwasanaeth digidol i ddsbarthu a hyrwyddo labeli ac artistiaid yng Nghymru. Mae'n cynnwys dwy swydd – un sy'n canolbwyntio ar ddsbarthu cynnwys artistiaid, a'r llall yn darparu cymorth i fandiau i drefnu teithiau, chwilio am leoliadau perthnasol a hyrwyddo eu deunydd. Ers cychwyn y gwaith, mae

- 25 o labeli bellach yn defnyddio gwasanaethau PYST
- Y 25 label yn cynrychioli 205 o artistiaid
- Mae'r cyfanswm o ffrydiau cerddoriaeth Gymraeg wedi mynd ymhell dros 2 filiwn ers sefydlu'r prosiect.

Mae PYST AM yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Mae'n chwaraewr digidol aml-blattform ar ffurf gwefan ac ap (ios ac android), a fydd yn adlewyrchu cerddoriaeth Gymraeg yn ogystal â chreu cynnwys newydd gan artistiaid a labeli. Bydd hwn yn blattform cymunedol i Gymru, yn ogystal ag yn blattform i arddangos Cymru i'r byd. Bydd hefyd yn tynnu busnesau eraill o Gymru ac artistiaid Cymraeg 'mwy o faint' i mewn i'w wneud yn blattform cwbl gynhwysol. Bydd PYST AM yn cynnig nifer o bosibiliadau i dalent creadigol Cymraeg o bob math ganfod cartref i arddangos eu doniau.

Hyrwyddo Prentisiaethau – yr Urdd

Nod y prosiect yw galluogi'r Urdd i gynyddu ei ddarpariaeth prentisiaethau yn fewnol ac yn allanol ar draws Cymru. I gyflawni hyn, mae'r Urdd yn hyfforddi staff i fod yn aseswyr ac aseswyr ansawdd mewnol, ac yn datblygu sgiliau prentisiaid cyfredol i fod yn diwtoriaid y dyfodol gan adeiladu seilwaith y sefydliad. Hyd yn hyn, mae'r Urdd yn cyflogi 22 prentis yn fewnol gyda 7 yn eu hail flwyddyn, 27 prentis allanol o 12 sefydliad gwahanol – y cwbl ar lefel 3 ac yn cael eu hyfforddi mewn gwaith ieuencid ac arweinwyr chwaraeon. Mae nifer o'r prentisiaid yng Nghwm Rhondda, yn dilyn targedau pwrpasol fel rhan o gynllun Ardal Tasglu Cymoedd y De, ac yn gweithio fel cynorthwywyr dosbarth yn yr ysgolion cynradd Cymraeg. Y bwriad yw ehangu i gymoedd eraill lle mae angen rhagor o gynorthwywyr dosbarth.

THEMA 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Nod y camau o dan Thema 3 y strategaeth yw cefnogi ein hymdrechion i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg. Mae a wnelo â chreu amodau addas ac amgylchedd lle gall y Gymraeg a'i siaradwyr ffynnu.

Er bod yna dargedau ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr a nifer defnyddwyr y Gymraeg, ni chaiff y naill na'r llall eu cyflawni heb seilwaith addas.

Cymuned a'r economi

Mae ein cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg yn wynebu amrywiol heriau ac yn aml iawn, mae'r cymunedau hyn wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig. Yn sgil newidiadau demograffig a'r heriau y mae cymunedau cefn gwlad yn eu hwynebu wrth i wasanaethau lleol gael eu canoli, mae'n hanfodol bod sylw priodol yn cael ei roi i atgyfnerthu sylfaen economaidd y cymunedau hyn. Mae Brexit wrth reswm yn ffactor mawr yn ein hystyriaethau yn y maes hwn. Wrth i'r ansicrwydd am Brexit barhau, yn enwedig yng nghyswllt rhai o gadarnleoedd y Gymraeg (er enghraifft yn sgil yr effeithiau posibl ar y sector amaeth), rydym yn benderfynol o gynnig rhagor o gefnogaeth i ddefnyddio'r Gymraeg mewn mwy o leoliadau gwaith ac yn gymdeithasol. Caiff y gyllideb ei hadolygu ar ganol y flwyddyn pan fyddwn yn gwybod beth fydd Brexit yn ei olygu.

Ein nod yn hyn o beth yw datblygu'r economi er mwyn rhoi troedle cadarn i gymunedau Cymraeg. Cyhoeddwyd *Cynllun Gweithredu ar yr Economi*, Llywodraeth Cymru ar 12 Rhagfyr 2017.

Bwriad y cynllun yw mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r economi yng Nghymru drwy gymryd camau priodol i adeiladu sylfeini cryfach ar gyfer twf, datblygu diwydiannau'r dyfodol a grymuso rhanbarthau i ddod yn fwy cynhyrchiol a chystadleuol. Mae'r cynllun yn gosod model datblygu economaidd newydd sy'n ceisio sicrhau twf cynhwysol drwy greu gwell swyddi sy'n agosach at gartrefi pobl. Mae'r cynllun gweithredu ar gael isod.

https://llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi?_ga=2.58170794.1276274152.1579183783-1483184020.1552659942

Mae sefydlu'r Contract Economaidd yn rhan o'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi, sef fframwaith ar gyfer creu perthynas newydd â busnesau sy'n gobeithio cael mynediad at gyllid neu gefnogaeth gan y Llywodraeth. Mae'r contract economaidd yn ei gwneud hi'n ofynnol i fusnesau ddangos eu bod wedi ymrwymo i dyfu, darparu gwaith teg, sicrhau iechyd a sgiliau gweithwyr a lleihau eu hól troed carbon, gan adlewyrchu'r math o ymddygiad busnes y mae llawer o fusnesau llwyddiannus a chyfrifol yn eu harddel.

Elfen allweddol arall y Cynllun yw sefydlu Prif Swyddogion Rhanbarthol fydd â thimau o swyddogion fydd yn ymgysylltu'n eang â phartneriaid oddi mewn i Lywodraeth Cymru a'r tu allan iddi, gyda'r nod o ddod â dimensiwn rhanbarthol cryfach i ddatblygu economaidd. Mae'r timau rhanbarthol wrthi'n datblygu Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol, a bydd y rhain yn elfen bwysig wrth roi cyd-

destun i'n gweithgareddau a'n gwaith ochr yn ochr â chymunedau, awdurdodau lleol, colegau, busnesau ac eraill er mwyn gwella canlyniadau economaidd.

Ym mis Chwefror 2018, cyhoeddodd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth gyllid o £2 miliwn i sefydlu rhaglen arloesi Arfor o fewn awdurdodau lleol Ceredigion, Caerfyrddin, Gwynedd ac Ynys Môn. Bwriad rhaglen Arfor yw annog a hwyluso nifer o gynlluniau arloesol er mwyn creu swyddi a chryfhau yr economi leol yn y cadarnleoedd a thrwy hynny gefnogi parhad a thwf y Gymraeg.

Bydd Arfor yn canolbwyntio ar yr ardaloedd hynny lle y mae'r economi sylfaenol ac amaethyddol yn hollbwysig ac mewn trefi marchnad a phrifysgol lle mae incymau isel yn dal i fod yn broblem. Bydd yr arian hwn a fydd ar gael i'r pedwar awdurdod lleol yn cael ei ddefnyddio i hwyluso dulliau newydd ac arloesol o ddatblygu'r economi yn y rhanbarth, drwy:

- hybu mentrau a chefnogi twf busnes mewn ardaloedd lle mae canran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg
- sicrhau swyddi da sy'n talu'n well i gadw pobl leol yn yr ardaloedd hyn ac annog y rheini sydd wedi gadael i ddychwelyd
- hyrwyddo gwerth siarad Cymraeg a dwyieithrwydd mewn busnesau gan greu naws cyffrous am le
- annog busnesau a phobl sy'n symud i ardaloedd gwledig i werthfawrogi a defnyddio'r Gymraeg.

Ym mis Chwefror 2019, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol y bwriad i gynnal trafodaeth Bwrdd Crwn gyda arweinwyr Awdurdodau Lleol, Economegwyr ac ymarferwyr sy'n gweithredu prosiectau economaidd yng ngorllewin Cymru. Bwriad y cyfarfod yw edrych ar y berthynas rhwng y Gymraeg a'r economi ynghyd ag ystyried yr heriau sy'n wynebu'r ardal a pha gyfleoedd sy'n bodoli i sicrhau ffyniant yr iaith Gymraeg a'r economi wledig.

Cynllunio Gwlad a Thref a'r Gymraeg

Ers cyhoeddi TAN 20, mae disgwyl i awdurdodau cynllunio ystyried y Gymraeg wrth iddynt ddatblygu eu Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae TAN 20 yn amlygu'r hyn y dylai awdurdodau cynllunio ei ystyried yng nghyd-destun y Gymraeg.

Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd i greu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol sy'n gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer y blaenoriaethau allweddol yng Nghymru drwy'r system gynllunio. Mae'r Fframwaith Ddatblygu Cenedlaethol yn gynllun gofodol hirdymor ar gyfer polisi, camau gweithredu a buddsoddiad y Llywodraeth, a chyrff eraill y mae'r Llywodraeth yn gweithio gyda hwy. Bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y ddogfen ddrafft yn ystod haf 2019 gyda'r bwriad o gyhoeddi fersiwn derfynol yn ddiweddarach yn 2020.

Un o'r datblygiadau economaidd mwyaf yn ystod y cyfnod adrodd wedi'i leoli o fewn ardal lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg, oedd cynllun Wylfa Newydd ar Ynys Môn. Ond cyhoeddodd cwmni Hitachi ym mis Ionawr 2019 y byddai'n oedi datblygiad Wylfa Newydd. O ganlyniad, daeth y gwaith o ddatblygu fframwaith asesu

effaith i ben am y tro. Serch hyn, byddwn yn ail edrych ar y canllawiau hyn yn 2019-20.

Diwylliant

Mae'r Gymraeg yn rhan flaenllaw o ddiwylliant Cymru, ac yn rhywbeth yr ydym yn ei ddathlu fel cenedl. Gwyddom bwysigrwydd sicrhau bod sefydliadau diwylliannol, celfyddydol a chwaraeon yng Nghymru yn gallu cael gafael ar yr gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i hybu'r Gymraeg.

Sefydliadau diwylliannol

Drwy ein gweithgarwch noddi, ein nod yw sicrhau bod defnydd o'r Gymraeg yn cynyddu, mewn digwyddiadau diwylliannol ac yng ngwaith bob dydd ein sefydliadau diwylliannol fel ei gilydd.

Bob blwyddyn, mae Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) yn comisiynu ymchwil annibynnol, Omnibws Cymru, i asesu'r hyn sy'n digwydd i gynulleidfaedd a chyfranogwyr Cymraeg eu hiaith. Mae canfyddiadau Arolwg Omnibws Cymru 2018 yn dangos gostyngiad bychan yn nifer yr oedolion sy'n siarad Cymraeg sy'n mynychu neu'n cymryd rhan yn y celfyddydau unwaith y flwyddyn neu fwy (presenoldeb 87%, cyfranogiad 43%). Fodd bynnag, mae'r Arolwg Omnibws Plant ar gyfer yr un cyfnod yn dangos cynnydd yn nifer y plant sy'n siarad Cymraeg sy'n mynychu ac yn cymryd rhan yn y celfyddydau unwaith y flwyddyn neu fwy (presenoldeb 94%, cyfranogiad 92%).

Ym mis Mawrth 2019, cyfanswm nifer yr ysgolion a gymerodd ran yn y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol oedd 576. O'r rhain, mae 119 yn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac mae 378 yn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae'r gweddill yn rhai dwy ffrwd, dwyieithog neu Saesneg gyda chryn dipyn o Gymraeg. Mae hyn yn cynrychioli 21% o nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg (119 allan o 576). Ar hyn o bryd mae 233 o Asiantau Creadigol yn gweithio mewn Ysgolion Creadigol Arweiniol, gyda chyfanswm o 80 o Asiantau Creadigol sy'n siarad Cymraeg yn rhan o'r cynllun.

Mae Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru ar gyfer 2018-19 yn dangos cynnydd mewn presenoldeb ar gyfer rhai gweithgareddau cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys dangosiadau ffilm a pherfformiadau mewn lleoliadau cyflwyno. Mae cyfranogiad yn y Gymraeg yng ngweithgareddau'r Portffolio wedi gostwng ar gyfer yr un cyfnod.

Bydd CCC yn:

- parhau i ofyn i gleientiaid y Portffolio gynyddu nifer y digwyddiadau a gweithgareddau cyfranogol sy'n targedu'r Gymraeg
- monitro cynnydd yn erbyn cynlluniau Datblygu'r Gymraeg unigol a thrwy fonitro canlyniadau arolygon y dyfodol
- parhau i fonitro ac adolygu cynnydd y Portffolio o ran targedau'r Gymraeg ar gyfer staff a Byrddau a nodir mewn cynlluniau gweithredu unigol, gan nodi rhwystrau a chefnogi datblygiad lle bo'n bosibl

- datblygu, treialu a lansio pecyn hyrwyddo dwyieithrwydd ar gyfer y sector celfyddydau yng Nghymru mewn cydweithrediad â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg
- gofyn i sefydliadau yn eu ceisiadau am gyllid ymdrin â sut byddant yn adlewyrchu natur ddwyieithog y gymuned y maent yn gweithredu ynddi a'r cynulleidfaoedd y maent yn eu targedu.

Mae data perfformiadau Noson Allan ar gyfer 2018/19 yn rhoi darlun mwy cyson â ffigurau'r blynyddoedd blaenorol, gyda 28% o berfformiadau yn y Gymraeg a 9% yn ddwyieithog. Bydd CCC yn parhau i hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith gymunedol drwy sicrhau bod targedu darpariaeth Gymraeg yn faes blaenoriaeth, tra hefyd yn hyrwyddo a chefnogi'r cynllun ymhlith cymunedau a pherfformwyr Cymraeg eu hiaith. Bydd CCC hefyd yn helpu i ddatblygu gwaith newydd yn y Gymraeg sy'n ceisio cynyddu cyfleoedd i gynulleidfaoedd Noson Allan.

Mae'r Llyfrgell Genedlaethol ac Amgueddfa Cymru yn sicrhau bod y Gymraeg yn weladwy ac yn berthnasol yn eu holl weithgareddau o ddydd i ddydd. I'r cyhoedd sy'n ymweld, mae'r dull hwn yn cael ei gefnogi'n helaeth gan wybodaeth ac arwyddion dwyieithog, dehongli dwyieithog, deunyddiau marchnata dwyieithog a rhaglenni digwyddiadau dwyieithog.

Cymru a'r byd ehangach

UNESCO

Yn ystod y flwyddyn adrodd, dechreuodd y Llywodraeth ddatblygu naratif newydd ynghylch sefyllfa'r Gymraeg yn rhyngwladol gan ddefnyddio Blwyddyn Ryngwladol Ieithoedd Brodorol UNESCO 2019 fel llwyfan ar gyfer gwneud hynny. Gweithiom ar y cyd â nifer o bartneriaid, gyda Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru yn cymryd rôl arweiniol wrth drefnu digwyddiadau ar gyfer lansio'r Flwyddyn er mwyn ysgogi trafodaeth ynghylch rôl y Gymraeg ac ieithoedd brodorol eraill yn rhyngwladol. Fel rhan o'r gweithgareddau ar ddechrau'r Flwyddyn, cynhaliwyd gig yn y Senedd i ddathlu Dydd Miwsig Cymru a gafodd ei ffrydio ar y we ar draws y byd.

Cysylltiadau rhyngwladol

Yn ystod ymweliad Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol â'r UDA ym mis Chwefror – Mawrth 2019, siaradodd y Gweinidog ym Manc y Byd yn Washington DC ynghylch rôl Cymru fel esiampl i'r byd cyfan o ran dangos sut y gall ieithoedd brodorol ffynnu. Yn Efrog Newydd, mewn cydweithrediad â chynrychiolwyr o Wlad y Basg, Fflandrys a Quebec, cynhaliodd y Gweinidog sesiwn hefyd yn y Cenhedloedd Unedig yn amlygu ein gwaith yn hyrwyddo cymdeithasau dwyieithog yn ein gwledydd perthnasol.

Brand 'Cymru'

Mae'r iaith Gymraeg wedi cael ei defnyddio'n helaeth eleni i hybu Cymru a denu twristiaeth a buddsoddiadau.

Mae'r Gymraeg yn rhan ganolog o frand Cymru Wales – mae'r brand yn ddwyieithog ac ysbrydolwyd y ffont gan yr iaith Gymraeg.

Defnyddiwyd y Gymraeg mewn ymgyrchoedd blaenllaw ar gyfer twristiaeth a buddsoddi yn Llundain ac yn Japan. Roedd yr ymgyrch yn Japan yn cynnwys digwyddiadau byw a oedd yn trafod ac yn dathlu iaith a diwylliant Cymru.

Byddwn yn parhau i wneud mwy i roi llwyfan i'r Gymraeg yn ein hymgyrchoedd yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol.

Twristiaeth ac ymwelwyr

Gwelwn ei bod yn bwysig i ni arwain drwy esiampl fel Llywodraeth, gan hybu'r Gymraeg ar lwyfan byd-eang a chrosawu manteision bod yn wlad ddwyieithog. Gwnawn hynny drwy ddylanwadu ar holl ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu'r Llywodraeth fel bod ein statws fel gwlad ddwyieithog yn cael ei weld fel elfen werthu unigryw yn y byd ehangach.

Mae'r Gymraeg yn rhan ganolog a gweledol o'n hymgyrchoedd i hybu Cymru ar lwyfan byd-eang, a'r neges am ddwyieithrwydd Cymru hefyd yn cael ei rhannu ar blatfformau perthnasol. Ceir enghraifft dda o hyn ar wefan Wales.com – prif borth digidol Cymru, sy'n cynnwys erthyglau penodol ar y Gymraeg a Chymru ddwyieithog; ac mae'r neges hon hefyd yn frith drwy lawer o'r cynnwys yr ydym yn ei ddefnyddio ar draws ein hamryw wefannau.

Mae prosiectau cenedlaethol eraill fel Ffordd Cymru a'r blynyddoedd twristaidd thematig hefyd yn rhoi llwyfan i'r Gymraeg a'n canllawiau i'r diwydiant yn pwysleisio pwysigrwydd y Gymraeg fel rhan o brofiad unigryw Cymru.

Mae gwneud mwy o hyn yn rhan fawr o'n Blaenoriaethau ar gyfer yr Economi Ymwelwyr 2020-2025: gyda'r pwyslais ar daro cydbwysedd rhwng bro (y lleol, a'r Cymreig) a'r byd.

Er mwyn gwneud y Gymraeg yn fwy gweladwy i ymwelwyr a'i gwneud yn haws iddynt ddod ar draws y Gymraeg a'i dysgu, yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol (2017-18), lansiodd Pecyn *Croeso i Gymru / Croeso i'r Gymraeg* ar y cyd â Chyngor Ynys Môn. Yn 2018-19, estynnwyd y broses o dreialu'r ymyrraeth yn Sir Gâr. Amlygodd hyn anhawster i gyrraedd y grŵp targed, ac o ganlyniad mae trafodaethau wedi'u cynnal gyda meddygfeydd ac adrannau treth cyngor yr Awdurdodau Lleol er mwyn ystyried ffyrdd o gyflwyno'r pecyn wrth gofrestru gyda meddyg lleol neu drefnu taliad treth cyngor.

Y tu hwnt i ffiniau Cymru

Mae'r Llywodraeth yn rhoi grant blynyddol o £90,000 i Ysgol Gymraeg Llundain. Mae'r Ysgol hon yn hyrwyddo'r Gymraeg yn Llundain ac yn darparu addysg gynradd Gymraeg i blant, y mae nifer ohonynt yn dychwelyd, maes o law, i'r system addysg Gymraeg yng Nghymru.

Mae Prosiect yr Iaith Gymraeg yn parhau i hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg ym Mhatagonia. O ganlyniad i waith y Cyngor Prydeinig, ar y cyd â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Urdd Gobaith Cymru, Cymdeithas Cymru Ariannin a phartneriaid eraill, treuliodd tri swyddog datblygu gyfnodau ym Mhatagonia yn dysgu'r iaith i blant ac oedolion a chefnogi gweithgareddau i ddefnyddio'r iaith. Llwyddwyd i roi'r cyfle i dros 1,200 o unigolion fynychu cyrsiau Cymraeg ym Mhatagonia yn ystod 2018.

Radio a theledu

Rydym wedi parhau i gyfeirio at bwysigrwydd S4C a Radio Cymru o ran darparu gwasanaethau Cymraeg gyda Llywodraeth y DU, Ofcom ynghyd â'r BBC. Maent yn parhau i chwarae rôl bwysig wrth gyflawni ein nod o gyrraedd y miliwn. Byddwn yn parhau i weithio gydag S4C a BBC Cymru Wales i gyflawni ein dyheadau ar gyfer yr iaith.

Rydym wedi parhau i godi'n gyson gydag Ofcom, gan gynnwys ein hymateb i'r ymgynghoriad ar adroddiad blynyddol Ofcom ar gyfer 2019-20, yr angen i ystyried ffactorau ieithyddol pan mae trwyddedau'n radio yn cael eu dyfarnu neu'n cael eu hadolygu ar gyfer gorsafoedd yng Nghymru, drwy bennu yn y cytundeb y bydd nifer penodol o oriau'n cael eu darlledu yn Gymraeg ynghyd â datganiad am gynnwys ar y we yn Gymraeg, megis testun, ffrydiau a chlippedau fideo.

Dylid gosod amrywiaeth ieithyddol, yn enwedig o ran y Gymraeg mewn gwasanaethau i Gymru, fel targed wrth ddyfarnu a rheoleiddio gwasanaethau i Gymru.

Cyhoeddiadau Cymraeg

Mae cefnogaeth ariannol Llywodraeth Cymru drwy Gyngor Llyfrau Cymru wedi sicrhau fod modd parhau i gefnogi cyhoeddwyr i gynhyrchu llyfrau a chylchgronau i oedolion a phlant.

Mae Golwg 360 yn parhau i gael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru drwy Gyngor Llyfrau Cymru. Roedd yr ymweliadau dyddiol unigol ar gyfartaledd yn 14,537; ymweliadau tudalen yn 160,361; cynyddodd y dilynwyr ar Twitter o 12,133 i 13,248; a Facebook o 3,211 3,596.

Gweithiodd y Cyngor mewn sawl cyfeiriad i wireddu argymhellion yr arolwg o'r farchnad lyfrau plant ac oedolion ifanc. Cynhaliwyd cwrs mewn cydweithrediad â Llenyddiaeth Cymru, yn Nhŷ Newydd, ar gyfer awduron a darlunwyr llyfrau stori a llun i blant bach a gwelwyd peth o ffrwyth y cwrs hwnnw'n cyrraedd y farchnad. Gwaned arolwg o anghenion rhieni di-Gymraeg sy'n prynu llyfrau Cymraeg i'w plant, crëwyd taflenni a chatalogau newydd oedd yn ateb gofynion ysgolion y well, gwnaed cysylltiadau proffesiynol gyda'r Booktrust a chysiau hyfforddi athrawon a pharhawyd i weithio gyda llyfrgelloedd a gwelwyd mwy o deitlau gwreiddiol yn cyrraedd y farchnad.

Cynhaliwyd tendr cylchgronau llwyddiannus a llwyddwyd i gadw'r portffolio a fu yn ogystal ag ychwanegu dau deitl newydd: *Cara* (cylchgrawn i ferched) a *Lysh*

(gwasanaeth digidol i ferched yn eu harddegau). Rhoddwyd arian unwaith ac am byth i Mam Cymru (gwasanaeth ar-lein i famau) a Parallel Cymru (gwefan i ddarllenwyr a dysgwyr y Gymraeg).

Cyhoeddwyd ugain o lyfrau ar gyfer dysgwyr wedi eu golygu i gyd-fynd â safonau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Cawsant dderbyniad cynnes iawn ac mae rhagor wedi'u hymgorffori i raglenni cyhoeddi arferol y cyhoeddwy i ychwanegu at y gyfres.

Gweithiodd y Cyngor i wireddu camau cyntaf y cynllun Darllen yn Well. Comisiynwyd y cyfieithwyr a'r cyhoeddwy, golygwyd y llyfrau a chyhoeddwyd nifer dda o'r llyfrau dementia. Mae'r cynllun yn parhau yn 2019/20 gyda gweddill y llyfrau dementia a'r llyfrau iechyd meddwl. Mae hyn wedi llenwi bwlch pwysig yn y farchnad ac wedi ysgogi awduron i feddwl am ddarpariaeth wreiddiol yn Gymraeg.

Cymraeg i bawb

Rhoddwyd rhaglen benodol ar waith gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn ystod 2018-19 er mwyn estyn cyrhaeddiad y rhaglen Dysgu Cymraeg. Yn ogystal â chynnal cyrsiau rhad ac am ddim i gynulleidfaoedd targed penodol, mae'r Ganolfan wedi gweithio ar y cyd gyda nifer o bartneriaid, gan gynnwys Cyngor Ffoaduriaid Cymru ar raglen Cymraeg i Bawb gyda'r nod o sicrhau bod unigolion o bob cefndir yn gallu dysgu Cymraeg a datblygu eu hyder i ddefnyddio'r iaith.

Technoleg ddigidol

Lansiwyd Cynllun Gweithredu Technoleg cynhwysfawr ym mis Hydref 2018. Bydd yn cael ei weithredu hyd ddiwedd 2021. Rydym wedi adnabod tri maes penodol y bydd y Cynllun yn mynd i'r afael â hwy:

1. Technoleg Lleferydd Cymraeg
2. Cyfieithu â chymorth cyfrifiadur
3. Deallusrwydd Artiffisial Sgwrsiol

Dyma fanylion rhai o'r prosiectau cysylltiedig:

Mae Prifysgol Bangor yn dal i wella ei chynorthwydd personol medrus Macsen sy'n 'clywed' cwestiynau llafar yn Gymraeg am bynciau penodol ac yn gallu rhoi atebion defnyddiol iddynt. Cyn bo hir, bydd modd adnabod a thrawsgrifio'r 2,500 o eiriau Cymraeg sy'n cael eu siarad a'u hysgrifennu amlaf yn y Gymraeg.

Gyda chefnogaeth Cracio'r Cod Llywodraeth Cymru, mae 105 Clwb Cod wedi'u cofrestru gan fudiad Code Club (Ebrill 2019) mewn ysgolion Cymraeg a dwyieithog. Yn ystod yr un cyfnod, roedd 699 o Glybiau Cod wedi eu cofrestru dros Gymru yn gyffredinol, felly byddai hyn yn cynrychioli 15% o'r cyfanswm cyffredinol.

Prif gwmnïau technoleg

Yn ogystal â chynnal sgysiau â chwmnïau technoleg, bu pwyslais ein gwaith ar ddatblygu seilwaith technoleg y Gymraeg. Bydd yn bosibl i gwmnïau o bob math ddefnyddio'r cydrannau a grëir er mwyn cynnig cefnogaeth i siaradwyr Cymraeg

Rydym ni wedi bod yn gweithio gyda Google ar Google Classroom a chyda Microsoft ar Microsoft Office 365 er mwyn gwneud yn siŵr bod eu cynnyrch ar gael yn ddwyieithog ar Hwb. Mae'r adnoddau dysgu codio o'r Clwb Codio a'r Technocamps ac eraill ar gael yn ddwyieithog ar Hwb hefyd.

Cwmnïau sy'n derbyn grantiau

Cafodd targedau ynglŷn â thechnoleg a marchnata eu cynnwys wrth ddyrannu grant Hybu a Hyrwyddo Defnydd y Gymraeg. Mae pob un o'n partneriaid grant yn defnyddio dulliau electroneg i farchnata eu gwaith.

Wikipedia

Rhodddwyd grant i Lyfrgell Genedlaethol Cymru ar gyfer prosiect o'r enw WiciPobl sydd wedi cynyddu nifer yr erthyglau Cymraeg am bobl adnabyddus o Gymru. Crëwyd yn agos i 1,500 o erthyglau Cymraeg newydd ar Wikipedia o ganlyniad i'r ymgyrch. Defnyddiwyd WiciPobl fel astudiaeth achos ar gyfer Europeana fel enghraifft o arfer dda o'r celfyddydau yn cael effaith gadarnhaol ar fywyd dinasyddion.

Seilwaith ieithyddol

Mae gwaith ar dechnoleg a'r Gymraeg yn eistedd ochr yn ochr ac yn ategu ein hymdrechion i ddatblygu seilwaith ieithyddol y Gymraeg. Yn ystod y flwyddyn adrodd, parhawyd gyda'r gwaith o asesu sut orau i ddatblygu seilwaith ieithyddol y Gymraeg, sy'n cynnwys gwaith geiriadura, terminoleg, adnoddau corpws a'r proffesiwn cyfieithu, er mwyn cydlynu'r gwahanol elfennau'n well a darparu gwasanaeth gwell i ddefnyddwyr.

Dros y cyfnod nesaf, byddwn yn datblygu'r polisi ymhellach, ochr yn ochr â'r gweithredu ar gyfer technoleg a'r Gymraeg. Y nod yw arloesi a chydlynu'r seilwaith ieithyddol yng Nghymru yn well, a sicrhau bod y maes yn symud yn ei flaen mewn modd strategol er budd siaradwyr Cymraeg ym mhobman ac o bob gallu.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant i brosiect Geiriadur Prifysgol Cymru, sy'n cyfrannu at nifer o'r camau a nodir yn strategaeth *Cymraeg 2050*, gan gynnwys creu amodau ffafriol i'r iaith, technoleg ddigidol a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r cyllid hwn hefyd yn cydnabod pwysigrwydd y Geiriadur fel conglaen ieithyddol i'r Gymraeg.

Mae'r Termiadur Addysg yn parhau i ddatblygu, gyda pwyslais diweddar ar gefnogi'r gwaith o ddiwygio cymwysterau diwygiedig lechyd a Gofal a Gofal Plant a gafodd eu dysgu gyntaf ym Medi 2019.

Er mwyn cefnogi cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd i fodloni'r galw cynyddol am eu gwasanaethau, parhaodd Llywodraeth Cymru i gefnogi Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Dyma'r corff sy'n cynnal, yn sicrhau ac yn hyrwyddo safonau cyfieithu proffesiynol, gan wella, cynyddu a datblygu sgiliau a gwybodaeth cyfieithwyr.

Bwrdd Rhaglen *Cymraeg 2050*

Sefydlwyd Bwrdd Rhaglen *Cymraeg 2050* o fewn y Llywodraeth yn ystod y flwyddyn. Diben y Bwrdd yw craffu ar gynnydd, cynnig cyngor ac arweiniad a sicrwydd wrth weithredu *Cymraeg 2050*. Ymysg pethau eraill, bydd y Bwrdd yn:

- gyfrifol am gynghori ar waith prif ffrydio'r Gymraeg ar draws y Llywodraeth
- edrych ar drosolwg strategol o berfformiad y Rhaglen gan gynnwys rheoli risgiau
- gwneud penderfyniadau lle ceir gwrthdaro polisi, adnoddau a / neu gyllideb rhwng gwahanol feysydd polisi
- sicrhau bod trefniadau llywodraethiant ac atebolrwydd priodol ar waith.

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob tymor neu'n amlach yn ôl y galw.

Ymchwil a gwerthuso

Cynhaliwyd gwerthusiad proses o'r rhaglen Cymraeg i Blant yn ystod y flwyddyn, a chyhoeddwyd yr adroddiad terfynol gan Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth ym mis Chwefror 2018. Roedd canfyddiadau'r gwerthusiad yn cwmpasu nifer o feysydd yn cynnwys nod ac amcanion y rhaglen, strwythurau a phrosesau, a gweithio mewn partneriaeth. Mae argymhellion y gwerthusiad wedi eu rhoi ar waith wrth i'r rhaglen gael ei datblygu ymhellach o fis Ebrill 2019 ymlaen.

Comisiynwyd dau werthusiad arall ac un astudiaeth ymchwil yn ystod y flwyddyn. Rhoddwyd gwerthusiadau o'r Siarter Iaith ac o'r Cyfnodau Sabothol i ymarferwyr addysg ar waith, ac mae'r prosiectau hyn yn parhau.

Elfen greiddiol arall o Gynllun Tystiolaeth 2018-19 oedd prif ffrydio'r Gymraeg yng ngweithgaredd ymchwil y Llywodraeth. Parhaodd y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi i gydweithio gyda swyddogion ymchwil ar draws meysydd polisi, i brif ffrydio'r Gymraeg mewn ymchwil gymdeithasol.

Mae'r gwaith o ddatblygu Fframwaith Gwerthuso, i gefnogi'r broses o gynllunio tystiolaeth y tu hwnt i 2018–19, ar y gweill ar hyn o bryd.

Datblygwyd rhaglen i gefnogi tair ysgoloriaeth ddoethurol sy'n archwilio agweddau ar y Gymraeg ac ieithoedd mewn addysg. Digwyddodd hyn yng nghyd-destun ehangach cynnal partneriaethau gydag ymchwilwyr mewn addysg uwch.

Archwilio ffyrdd o ychwanegu at ein dealltwriaeth o brofiadau ieithyddol siaradwyr yn ystod eu hoes

Er mwyn datblygu ein sylfaen dystiolaeth ar sut mae pobl yn defnyddio'r Gymraeg, cydweithiodd y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi gyda swyddogion polisi i ymgynghori â rhanddeiliaid allanol er mwyn nodi'r gofynion gwybodaeth ar gyfer cynnal Arolwg Defnydd Iaith newydd. Datblygwyd holiaduron i oedolion a phlant, sy'n cynnwys cwestiynau ynghylch, pa mor aml, ble a phryd maent yn defnyddio eu Cymraeg. Rhoddwyd yr holiaduron hunan-lenwi i'r rheini a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn Arolwg Cenedlaethol Cymru. Dyma'r fethodoleg a gafodd ei defnyddio ar gyfer yr arolygon defnydd iaith blaenorol yn 2004-06 a 2013-15. Dechreuodd Arolwg Defnydd Iaith 2019-21, ym mis Gorffennaf 2019 a bydd yn parhau tan ddiwedd mis Mawrth 2021, gyda chanlyniadau cychwynnol yn cael eu cyhoeddi yn Hydref 2020.